

ECO'R WYDDFA

RHIF 337

HYDREF 2006

PRIS 40c

Adeilad Newydd ar y Copa




Fel y gwyr pawb bellach cychwynnwyd ar y gwaith o ddymchwel adeilad copa'r Wyddfa yn ystod mis Medi. Bu cryn sôn am y gwaith o adeiladu canolfan ar y copa ers tro, gyda'r cyfryngau yn dyfynnu geiriau y tywysog (*highest slum in England*

and Wales) hyd syrffed. Bwriad y cynllun yw chwalu'r adeilad presennol yn ystod misoedd yr hydref ac yna cychwyn ar y gwaith adeiladu yn ystod 2007. Golyga hyn y bydd y rheilffordd ar gau i draffig ymwelwyr o orsaf Clogwyn i gopa'r wyddfa hyd at haf 2008. Wedi peth trafferth llwyddwyd i gael swm syfrdanol o arian, oddeutu £9,000,000, o sawl ffynhonnell ar gyfer y gwaith. Deallwn y bydd yr adeilad newydd yn cael ei osod at ei gilydd mewn darnau ar lannau Dyfrdwy ac yna eu cludo i'r copa ar wagen arbennig. Tybed faint o drigolion yr ardal fydd yn ymgymryd â'r gwaith?

Ni fu adeiladu'r 'gwesty' presennol yn ddiffwdan 'chwaith. Yn fuan wedi codi'r adeilad presennol gan Syr Clough Williams-Ellis yn 1935 ymwelodd Morus y Gwynt â'r

safle a thorrodd y ffenestri yn deilchion. Tybed be ddaw o'r adeilad newydd a'i do gwyrdd, glas neu goch? Mawr obeithiwn y bydd ei ffenestri mawr crand yn cael llonydd gan Morys y Gwynt a gan y cerddwyr sydd yn ymweld yn gyson â'r Copa drwy gydol y flwyddyn – ac y bydd yr adeilad yn ddigon cadarn i wrthsefyll urhyw wyntoedd cryfion neu efallai y bydd enw newydd ar un o gymoedd Eryri cyn bo hir – Cwm Furneaux Stewart (y pensaer)?!! Amser a ddengys...

O.N. Mae croeso i unrhyw un gyfrannu at gostau'r adeiladu gan fod apel y Parc Cenedlaethol yn dal yn agored! Os nad oes gennych awydd cyfrannu i'r achos bydd croeso i chwi anfon unrhyw swm neu erthygl at achos yr *Eco*, rhag iddo yntau ddiflannu gyda'r gwynt.



Gareth gyda'r teulu croesawgar yn nhref Buckingham, Virginia.

40 Dydd ar Gefn ei Feic

Yr ystadegau moel yw fod Gareth wedi seiclo 3,700 o filltiroedd dros 39 o ddiwrnodiau gyda dim ond un diwrnod o orffwys.

Cychwynnodd y daith yn Efrog Newydd a diweddu yn San Francisco. Aeth y daith ag o drwy 12 talaith: New Jersey, Virginia, West Virginia, Kentucky, Indiana, Illinois, Missouri, Kansas, Colorado, Utah, Nevada a California. Ar y daith roedd yn symud drwy pedwar parth amser, sef *Eastern, Central, Mountain a Pacific*.


Yn y dyddiadur mae Gareth yn nodi nifer o atyniadau a welodd. Digon yw nodi rhai ohonynt yn unig: Adeilad yr Empire State, Y Tŷ Gwyn, Cofgolofn Washington, Porth Gateway St. Louis, Dodge City a Witicha. Dyma enwau

cyfarwydd i nifer ohonom mewn llun neu gân. Wrth gwrs, roedd wedi rhyfeddu at faint y Rockies, a ffurf unionsyth Route 66 a Route 50 yn Nevada, *'the loneliest road in America'*. Mae popeth yn yr Amerig yn fwy, felly tipyn o brofiad oedd seiclo drwy fylchoedd Monarch, Colorado (11,311 troedfedd) a Kit Carson, California (9,000 troedfedd).

Cael syniad o amser a chefnidir hefyd drwy ymweld ag ogofau y Petroglyfs yng Ngholorado, ble roedd yr Americanaid Cynhenid wedi byw filoedd o flynyddoedd yn ôl. Rhaid cytuno gyda Gareth, o'm profiad personol, mai rhyfeddod yn wir yw pont anhygoel y Golden Gate ar

(parhad ar dudalen 5)

Glyn yn Llanbêr



ECO'R WYDDFA

**RHIF 337
HYDREF 2006**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Ellis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

**Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 16 HYDREF**

Os gwelwch yn dda
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 26 HYDREF**

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Tachwedd	16 Hydref	26 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870 625

TÎM HYSBYSEBION NEWYDD

Yn dilyn apêl *Eco'r Wyddfa* am wirfoddolwyr, braf adrodd fod tri pherson wedi cynnig eu henwau i helpu gyda'r hysbysebion, sef Eifion Roberts o Lanberis a Dilys Perez a Nia Glyn o Fethel. Y tîm hysbysebion newydd yw:

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, LL55 4PN, ffôn 01286 675605 e-bost: johnroberts@parabl.com (Cydlunydd)

Eifion Roberts, Sŵn y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis, ffôn 01286 870740, e-bost: eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

Dilys Perez a Nia Glyn, Hafod, Tanycae, Bethel ffôn 01248 670728 e-bost: ninz@tesco.net

Bydd Eifion yn canolbwyntio ar ardaloedd Nant Peris, Llanberis, Cwm y Glo, Brynrefail, Deiniolen a Dinorwig. Cyn ei ymddeoliad roedd yn rhedeg busnes Becws Eryri yn Llanberis gyda'i wraig Gwyneth, sy'n ohebydd yr *Eco* yn y pentref.

Yn rhifyn 341, Chwefror 2007, bydd Eifion yn cymryd drosodd oddi wrth John Roberts fel Cydlunydd Hysbysebion.

Mam a merch yw Dilys Perez a Nia Glyn. Bydd y ddwy'n canolbwyntio ar ardaloedd Llanrug, Bethel, Waunfawr a Chaeathro. Ymddeolodd Dilys fel athrawes hanes yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac mae Nia newydd lwyddo'n rhagorol yn ei arholiadau Safon Uwch yn Ysgol Brynrefail. Yn ffodus i *Eco'r Wyddfa*, dymuna Nia gael seibiant rhwng ysgol a choleg ac mae'n awyddus i helpu'r papur.

Os ydych mewn busnes ac eisiau cyrraedd tua dwy fil o gartrefi'r ardal bob mis – cysylltwch ag unrhyw un o'r tîm hysbysebion am ragor o wybodaeth. Helpwch eich busnes ac *Eco'r Wyddfa* 'run pryd!

Annwyl Olygydd

Hoffwn dynnu eich sylw at gamagraff a roddwyd i ddarllenwyr yr *Eco* y mis diwethaf. Nodwyd gennych 'Ni fydd modd gadael newyddion yr *Eco* yn Palas Print o hyn ymlaen.' Er nad wyf bellach yn aelod o'r tîm golygyddol, yr wyf fi a staff Palas Print yn fwy na pharod i dderbyn newyddion ac erthyglau, ac i barhau gyda threfniadau eraill sydd wedi'u sefydlu. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd sydd yn cael ei dderbyn gennym yn cael ei basio ymlaen i'r swyddogion priodol. Yn gywir
Eirian James

Galeri 20
Caernarfon

Annwyl Olygydd

Pâr: Ymgyrch Cwis Papurau Bro
Ysgrifennaf atoch i estyn gwahoddiad i chi gymryd rhan mewn cwis yn y Gymraeg ac ymgiprys am wobwr fawreddog o £1,000 i'ch papur bro.

Mae Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, mewn cydweithrediad â Chyngor Llyfrau Cymru a safleoedd 'Lleol i Mi' a BBC RaW ar wefan BBC Cymru (www.bbc.co.uk/cymru/lleolimi) yn bwriadu cynnal cystadleuaeth hwyliog fydd yn gyfle i aelodau papurau bro gwahanol fynd benben i brofi eu gallu a'u gwybodaeth ym maes llyfrau a thu hwnt!

Bydd y cwis yn agored i bob papur bro yng Nghymru, gyda rowndiau rhanbarthol i ddechrau i benderfynu pwy gaiff fynd drwodd i'r ffeinal. Bydd y tîm sy'n fuddugol yn y 5 rownd rhanbarthol oll yn ennill gwobr ariannol o £250, yn ogystal â chael y cyfle i geisio am y brif wobwr o £750, fydd yn dod â chyfanswm yr enillion i £1,000!

Gofynnwn i bob papur gynnig tîm o bedwar i fynychu'r rownd ranbarthol yn eu hardal hwy, yn ogystal â bod ar gael i fynychu'r rownd derfynol pe baech yn llwyddiannus ar y cam cyntaf. Bydd y cwis ei hunan yn achlysur digon anffurfiol, ac yn dilyn ffurf cwis dafarn, gyda phawb yn derbyn yr un cwestiwn gan gynnig atebion ysgrifenedig.

Bydd pob rownd ar y noson oll yn canolbwyntio ar un maes arbennig. Ymysg y meysydd fydd yn cael eu cynnwys fydd:

- Llyfrau
- Chwaraeon
- Ffilm a Theledu
- Diddordeb Lleol
- Gwybodaeth Gyffredinol

Bydd y rownd llyfrau yn canfod eich gwybodaeth o'r gyfres llyfrau, Stori Sydyn / *Quick Reads*. Mae'r gyfres yma – sy'n cynnwys pedwar teitl Cymraeg eu hiaith, sef: *Parti Ann Haf* gan Meleri Wyn Jones; *Jake* gan Geraint V. Jones; *Dŵr Ddwfn* gan Conn Iggulden (assas. Elis Meek) a *Brân i Bob Brân* gan Rowan Coleman (addas. Dafydd a Mandi Morse) – yn rhan o ymgyrch gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i annog mwy o oedolion i ddarllen. Yn gyfrolau byr, bachog i oedolion, maent yn ddelfrydol ar gyfer cwis o'r fath.

Byddwn yn darparu copïau adolygu o'r pedair cyfrol i bob tîm sy'n cymryd than, ac yn danfon y cyfrolau trwy'r post cyn gynted ag y derbyniwn ein ffurflen gofrestru wedi ei llenwi. Fel ysgogiad pellach i chi fwrw ati a darllen y llyfrau h yn, bydd pwyntiau dwbl am bob ateb cywir yn y rownd Stori Sydyn.

Y tîm gyda'r marciau uchaf ar ddiwedd y noson gaiff fynd ymlaen i'r ffeinal.

Mae croeso i chi ddod â chefnogwyr gyda chi ar y noson pe dymunech, a darperir lluniaeth ysgafn ymhob lleoliad. Mae'r papur bro yn adnodd amhrisiadwy i'n cymunedau, ac yn gyfrwng sy'n haeddu pob cefnogaeth bosib. Mae hefyd yn adnodd sy'n dod ag unigolion ynghyd, ac yn hyn o beth teimlwn fod cwis o'r fath yn adlewyrchu ethos ein papurau bro. Bydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i chi dderbyn rhywfaint o gyhoeddusrwydd pwysig i'ch papur.

Isod, amgaewn restr o ddyddiadau a lleoliadau'r rowndiau rhanbarthol, ac edrychwn ymlaen yn arw at eich croesawu i'r gystadleuaeth. Os oes un lleoliad, neu ddyddiad, yn fwy cyfleus na'i gilydd yna mae croeso i chi fynychu'r cwis hwnnw – hyd yn oed os ydyw mewn ardal arall.

Rhuthun

Nos Fawrth, 24 Hydref

Aberystwyth

Nos Fercher, 25 Hydref

Caernarfon

Nos Iau, 26 Hydref

Caerfyrddin

Nos Fercher, 1 Tachwedd

Caerdydd

Nos Iau, 2 Tachwedd

(Lleoliadau penodol i'w cadarnhau yn dibynnu ar yr ymateb)

Y Rownd Derfynol

Caiff y Ffeinal Fawreddog ei chynnal yn Aberystwyth, ar nos Sadwrn, 18 Tachwedd, rhwng 6–8.30 o'r gloch.

Oes gennych chi ddiddordeb? Cysylltwch ag un o swyddogion yr Eco.

Gerllyn
Llanberis

Annwyl Olygydd

Carwn i chwi gynnwys fy llythyr yn eich rhifyn nesa o'r *Eco*. Mae nifer o ffotograffau yn cynnwys stôr o wybodaeth, gresyn na fydddech yn dweud beth ydy beth, hefo is-deitlau.

Nid ffotograff Wynford Vaughan-Thomas mo'r llun a gynhyrchwyd gennych. Dyma ffotograff Wynford o'r cylchgrawn tra rhagorol *Tir Newydd*, Hydref 1936, tt.5–8.

J.R. JONES



Yr Wyddfa a Glaslyn

Cynllun Twristiaeth Safle Glyn Rhonwy Llanberis

Gan fod y wlad yma yn ymfrostio cymaint yn ei democratiaeth, byddai'n rhesymol i adael i bobl y sir benderfynu ar y math o ddiwydiant maent am ei weld yn dod i'r safle uchod.

Mae'n anodd deall pam fod pobl Cymru o dan orfodaeth dro ar ôl tro i dderbyn a dioddef y diwydiannau mwyaf niweidiol i iechyd a'r amgylchedd.

Ail i ryfel yw y diwydiant ymwelwyr oherwydd yr un yw'r canlyniadau, sef lladd, lladrata a llesteirio.

Os gwir yw'r honiadau fod y cynllun dan sylw am greu 800 o swyddi, faint mewn gwirionedd o bobl a thrafnidiaeth fyddai'n mynd a dod i'r safle yn ddyddiol, pob dydd o'r flwyddyn o blygain y bore hyd at berfeddion nos.

Y gred gyffredinol yw mai economi ffug yw economi'r diwydiant ymwelwyr, am y rheswm y gallai yr un cyfrif o bobl fynd am wyliau allan o'r wlad a'r cyfrif sydd yn dod i mewn. Er hynny y ddadl sydd yn mynd ymlaen yw fod yna filoedd lawer o swyddi a miliynau lawer o elw o'r diwydiannau cysylltiedig – ple bynnag mae eu lleoliad hwy – nid yng Nghymru rwy'n siŵr o hynny.

Os mai ein dymuniad yng Nghymru yw gwerthu ein paradwys odidog fel cae chwarae, gan wneud ein hunain yn ddibynol am ei cynhaliath ar wledydd eraill, byddwn yn euog o fradychu ymdrechion ein cyn-dadau. Ystyr y polisi yw globeleiddio'r byd.

Hoffwn wybod beth fydd effaith y cynllun hbonedig ar y canlynol:

- 1 Amgylchedd a chadwraeth – mae'r ehedydd eisoes wedi gadael y mynyddoedd.
- 2 Costau byw rheini lleol ac addysg eu plant.
- 3 Effaith ar ein hiaith a'n diwylliant cyfoethog.
- 4 Heddwch a distawrwydd

trigolion Llanberis a'r pentrefi cyfagos.

- 5 Cynnydd mewn troseddau. Pwysau ychwanegol ar yr heddlu.
 - 6 Gwsanaethau fel yr ysbytai, deintyddion, meddygon ac craill.
 - 7 Prinder tai. Trethi a phris eiddo yn cynyddu.
 - 8 Cynnydd difrifol mewn trafndiaeth o bob math.
 - 9 Pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau trydan, dŵr, carthffosiaeth a sbwriel.
 - 10 Rhoi blaenoriaeth i'r diwydiant twristiaeth yn tanseilio y broses o gynhyrchu cynhaliath bur ac iach o dir Cymru a Phrydain.
- Mae cancr, clefyd y galon a chaethdra yn destun pryder difrifol yn ein cymunedau. Rwyf o'r farn mai'r pwyntiau uchod sydd yn ymwneud â'r diwydiant ymwelwyr, sydd yn bennaf gyfrifol.
 - Os oes rhaid derbyn a dioddef o ganlyniad i fodolaeth y diwydiant ymwelwyr, byddai yn briodol i roi pwysau ar y Llywodraeth, yr adrannau cynllunio a'r Bwrdd Twristiaeth, er mwyn i Gymru gael canran deg o'r diwydiannau cysylltiedig a phle gwell na'r hen chwarel i'w lleoli.
 - Mae'r Gymuned Ewropeaidd yn gwario miliynau ar warchod a gwella'r amgylchedd, tra ar yr un pryd yn gwario miloedd ar ei ddinistrio.

Gyda golwg ar warchod y wlad a dyfodol ein plant rwyf yn un o filoedd o bobl sydd yn daer yn erbyn y cynllun uchod.

DAFYDD MORRIS
Cefn Coch
Deiniolen

Cefnogwch
ein Hysbysebwyrr

CAMWRI

Wedi byw a bod yn dlawd,
Bwyta bwyd â bys a bawd;
Weithiau gwledd o ginio'r Sul
Cawl o gynffon ychai, n hil.

Wedi gweithio dan gytundeb,
Bod y ffyddlon dros yr undeb,
Felly hefyd dros y cyd-ddyn,
Egwyddorion ym mēr esgyrn.

Gweithio'r dydd a gweithio'r nos.
Tynnu clogwyn, trin y rhos.
Gwaith a gorffwys oedd yn un,
Yn y drych roedd llun hen ddyn.

Gŵr y plas yn gas a chreulon,
Trafod dynion fel caethweision;
Wedi tynnu hyd y tennyn
Syrthiodd yntau dros y dibyn.

Diwedd stad a diwedd mawredd,
Y caethweision mewn gorfoledd
Tra'r uchelwr yn ddigalon,
Colli grym a'r hen arferion.

Anffawd fawr i ŵr mor feiddgar,
Hefyd i lywodraeth Lloegar,
Gweld y Cymry eto'n llwyddo
I feddiannu'n ôl eu heiddo.

Haleliwia i'r chwarelwr,
Felly hefyd i'r hen ffermwr,
Y blinedig yn sirili
Wedi taflu y cadwyni.

Ond yn wir dyna'r diwedd;
Cario 'mlaen â'r maen dialedd
Wnaeth y senedd ar ei chyfle.
Troi ein tir yn feysydd chware.

Dyfais newydd yr ysbeilwyr,
Creu diwydiant o'r ymwelwyr;
Pobl Lloegar wrth y miloedd
Yn ailafael yn ein tiroedd.

Mae'r drafndiaeth, ffyrdd ac awyr,
Yn effeithio ar sawl creadur,
Hefyd ar y bodau dynol,
Mae'r sefyllfa'n afresymol.

Tra fod rhai yn tynnu'r tennyn
Nid peth hawdd yw gwarchod gwerin,
Tra fod arian garw'n gyrru
Bydd y dibyn eto'n sennu.

Dyna stori y camwri,
Pam na wnawn ni sylweddoli;
Dysgu gwersi o'r gorffennol,
Felly gwarchod ein dyfodol.

Awdurdodau, asiantaethau,
Dorwch glust i'n cymunedau;
Peidiwch wir fod afresymol
Gwerthu Cymru fach a'i phobol.

DAFYDD CEFN COCH
5/9/2006

Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig

Bu cryn gyffro a chnoi ewinedd yn y clwb yn dilyn y fuddugoliaeth o bedair gôl i dair yn y munud olaf yng Nghyffordd Llandudno ar Fedi'r 16eg yn rownd gyntaf Cwpan Cymru. Pwy fyddai'r gwrthwynebwyr yn yr ail rownd tybed?

Daeth yr ateb ddydd Llun, y 18fed. Un o'r ddau Goliath lleol, neb llai na Dinas Bangor ar gae Eithin Duon ar Fedi'r 30 ain!

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r clwb wedi gwirioni. Y chwaraewyr ar dân i gael eu henwi yn y garfan, y swyddogion a'r pwyllgor yn brysur yn paratoi rhaglen, posteri a sicrhau cyhoeddus-rwydd, a'r cefnogwyr yn ceisio cofio pryd y gwelwyd y fath wrthwynebwyr ar Eithin Duon, os erioed!

Gobeithir gweld torf o rai cannoedd yn cefnogi un tîm neu'r llall ddydd Sadwrn. Dewch i ymuno â hwy i weld a all Llanrug efelychu Dafydd!

Cysylltwch â Dafydd Evans (Ysg.) ar 07717375375 neu edrychwch ar wefan y clwb am fwy o wybodaeth.
<http://www.cpd-llanrug.net/>

DIM AMSER I NEWID

Yn ddiweddar roedd Côr Meibion Dyffryn Peris yn cymryd rhan mewn cyngerdd i lansio CD newydd Elwyn Hogia'r Wyddfa (un dda ydi hi hefyd – werth ei phrynu!). Ta waeth mae gan y côr lifrau newydd ers tro, sef siaced goch lachar, trowsus du a chrys melyn a thei gwyrdd.

Roedd pawb wedi troi i fyny yn eu dillad gorau ac yn edrych yn grand ar wahân i un – P.C.HUGHES o Fetws y Coed!! Roedd o wedi anghofio mai crys melyn roedd y côr yn ei wisgo ac yn gwisgo crys gwyn llachar. Efallai ei fod o ar *undercover duty* y noson honno.

Tro nesaf, Gareth, cofia mai crys melyn sy'n mynd gyda'r siwt goch.

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirrol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk
Gwefan: www.arvonias.co.uk



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



O SIAMBAR SELWYN

Ychydig dros saith deg o flynyddoedd yn ôl, pan oeddwn i'n hogyn bach (direidus yn ôl rhai), fe gerddwn yn ddyddiol o Bryn Alun i Ysgol Bethel. Doedd 'na ddim problem na pheryglon trafniadaeth ar y ffyrdd bryd hynny, ac yn wir fe allem yn hawdd gynnal gêm bêl-droed ar y ffordd fawr sy'n rhedeg drwy'r pentref.

Roedd ceir yn bethau prin a chostus. Hefo cart a cheffyl y byddai Huw Wiliams, Yr Erw, yn dod o gwmpas yr ardal yn foreol i werthu llefrith, a byddai Daniel Huws, Llwyn Bedw, yn mynd â'i gart a cheffyl i werthu llefrith i drigolion Y Feliheli. Ydi mae pethau wedi newid, ond mae'r hen atgofion yn parhau'n felys.

Digwydd cael cipolwg ar hen fwrthyn Blaen Rhos wrth basio yn y car y dydd o'r blaen a wnaeth i mi feddwl am hyn. Un o hen dyddynnod yr ardal sydd bellach wedi cael ei amgylchynu ag adeiladau modern, a phrin y gellir sylwi arno yn swatio'n swil rhwng yr adeiladau moethus.

Pan oeddwn i'n troedio tua'r ysgol yn nhri degau cynnar y ganrif ddiwetha, dim ond dau adeilad oedd yna rhwng Bryn Bannion (Bryn Ogwen) a'r ysgol, ag eithro Blaen Rhos. Roedd y Cwt Rêl, lle byddai'r trên chwarel yn croesi'r ffordd fawr, ac yna y Cwt Hers, ger yr ysgol. Sawl gwaith y buom ni fel plant yn gwyllo'r angladdau hers a cheffyl ymhell cyn dyddiau yr hers Rolls Rois. Ceffyl Pen-buarth fyddai'n cael y fraint o fod rhwng lloppiau'r hers ac roedd 'na rywbeth yn urddasol o barchus ynglŷn â'r hen angladdau hynny. Ysgwn i be fu diwedd yr hen hers?

Saif ardal Bethel yng nghwr isaf plwyf Llanddeiniolen. Rhennid y rhan isaf o'r plwyf yn ddwy 'Rhos'. Gelwid y rhan orllewinol yn Rhos Chwillog a'r rhan ogledd-ddwyreiniol yn Rhos Wylfa. Gelwid yr ardal yn *Penrhoschwilog* yn yr hen ddyddiau, ond newidiwyd yr enw i Bethel ag agoriad y Capel Annibynwyr yn 1810. Mae'r enw 'rhos' i'w gael ar amryw o dai a stadau yn Methel.

Mae hanes diddorol i amryw o'r hen dyddynnod ac un o'r rhain ydi Blaen Rhos. Tyddyn bach isel ydi Blaen Rhos o hyd. Arferai'r hen bobol adeiladu eu tyddynnod mor isel ag oedd bosib am y rheswm yr arferid trethu tai yn ôl eu huchder. Hefyd ffenestri bach oedd iddynt, gan y byddai mwy o dreth i'w thalu am ffenestri mawr.

Bu Blaen Rhos yn dafarn am gyfnod. Aflwyddiannus fu'r ymdrechion i gynnal tafarn yn yr ardal yn yr hen ddyddiau ac er y gwnaed ceisiadau sawl tro roedd teimladau'r dirwestwyr yn fwy egniol yn yr hen ddyddiau. Fodd bynnag tra roedd Blaen Rhos yn dafarn fe anwyd un o'r enw Owen Williams yno yn y flwyddyn 1814. Fe berthyn i bob ardal bron

ei 'dynion mawr' ac yr oedd Owen Williams yn hynod am ei ffraethineb a'i bertrwydd ymadrodd. Wedi iddo dyfu i fyny'n llanc arferai ddiddori y cwmni a fyddai'n dod i'r dafarn, ond buan y blinodd ar hyn ac fe ymunodd â'r Gymdeithas Ddirwestol a bu'n un o gewri'r achos gyda'r Annibynwyr ym Methel. Un o'i gyfeillion pennaf oedd John Griffith Parc-y-Wern a buont farw o fewn wythnos i'w gilydd. Pan ar ei wely angau dywedodd Owen William,

'Bydd Siôn Griffith wedi synnu fy ngweld i wedi dod i'r nefoedd mor fuan ar ei ôl o.'

Ceir stori arall ynglŷn â Blaen Rhos fel tafarn yn *Hen Atgofion*, W. J. Gruffydd, pryd yr adroddir am Owen Ffowc ar ôl iddo gael mwy na llond ei geubal un nos Sadwrn yn cael ei roddi ar gefn ei gasseg gyda'r bwriad iddi fynd ag o i Gae Meta fel arfer. Do fe gyrhaeddodd y gasseg Gae Meta gyda phiseriad o gwrw yn hongian wrth ei chyfrwy. Bu chwilio am Owen ac fe'i cafwyd yn eistedd ar setl fferm y Bush, Y Feliheli, tua dwy filltir o Blaen Rhos. Yr oedd wedi cael ei 'fwrw'n llapwrth' ar fuarth y Bush tua deg o'r gloch, o fewn ychydig funudau i'r amser y rhoddwyd ef ar gefn y gasseg o flaen y dafarn. Byddai Owen o hynny ymlaen yn amseru pob digwyddiad yn yr ardal oddi wrth yr amser 'y cipiodd y diawl fi i'r awyr oddi ar gefn y gasseg.'

Ar sir Llwyn Bedw yr adeiladwyd Blaen Rhos. Llwyn Bedw oedd crud twulu enwog y 'Ffowciaid' ac un o'r teulu y ma a a deiladodd Blaen Rhos, a ddaeth y'n didweddarach yn gartref i'r diweddar Ffowc Williams, a fu'n brifathro Ysgol Bethel o 1923-1929.

Daethpwyd i gytundeb â Stad y Faenol i deulu Blaen Rhos gael dal y tir oedd dros y ffordd iddynt am ychydig o rent. Bu hyn yn fantais oherwydd gellid cadw buwch neu ddwy. Ond o dipyn i beth, gan mai y Faenol oedd perchnogion y tir, aethont hefyd i geisio hawlio'r tyddyn. Buont yn gwneud hyn gydag amryw o

dyddynnod yr ardal, trwy ddweud wrth y perchnogion am dalu swllt y flwyddyn (i ddechrau) ac y byddent hwythau (y Faenol) yn gofalu amdaynt. Bu amryw yn ddigon ffol i dalu, gan i'r Faenol fygwth eu hel o'u cartrefi. Hefyd gan fod y mwyafrif o'r tyddynwyr yn gweithio yn y chwarel, yr oedd y Faenol yn bygwth eu gwneud yn ddi-waith. Dyna'r eglurhad bod nifer helaeth o dyddynnod y fro wedi dod yn rhan o Stad y Faenol. Gwrthododd rhai â syrthio i'r trap, ac un o'r rhain oedd Blaen Rhos, a bu'r tyddyn yn eiddo i'w berchenog dros y blynyddoedd.

Beth yw ystyr y 'blaen'. Yr un gair o bosib a 'blaenau' yn Ffestiniog - sef pen rhywle - pen draw. Efallai mai pen draw y rhos yn ardal Bethel, o gofio mai ar hen 'ros' y saif y pentre.

Ta waeth, hefo ceir y cyrchir plant i ysgol Bethel heddiw ac mae'n gwbl angenrheidiol cael dynes lolipop er diogelwch y plant. Ydi, mae pethau wedi newid mewn tri chwarter canrif.

DRAENOG ANTUR DIL!!

Yn ddiweddar fe brynodd Dilys fath newydd o goler ar gyfer y gath. Coler arbennig oedd hwn gyda maged cryf arbennig wedi ei wnio y tu mewn iddo. Roedd y coler hwn yn agor y 'cat-fflap' arbennig yr oedd Dil wedi ei osod ar y drws cefn. Bob tro yr oedd y gath eisiau dod i fewn roedd y maged arbennig ar y goler yn gwrthio yn erbyn maged arall ar y 'cat-fflap'!

Syniad gwyh ynde ac mi oedd yn sicr o rwystro cathod eraill rhag dod i fewn i'r tŷ. Roedd popeth yn gweithio yn dda tan un prynhawn - yn sydyn fe glywodd Dil sŵn y gath yn mewian nerth ei phen yn y gegin ac aeth i edrych beth oedd yn bod.

Er syndod i Dil roedd y gath yn sownd wrth ei choler yn nrws y fridge! Mae'n wir dweud MAI dyma'r tro olaf i'r gath wisgo'r goler arbennig hon.

Dosbarth Cynganeddu Bro'r Eco

Mae'r dosbarth wedi ail-gychwyn, gan gyfarfod yn nhafarn y Gors Bach. Byddant yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher am 8 o'r gloch, dan arweiniad Karen Owen. Mae pob aelod erbyn hyn yn gyfarwydd â llunio llinellau, ac yn edrych ymlaen i lunio yr englyn neu gywydd cyntaf. Dyddiadau y sesiynau rhwng nawr a'r Nadolig yw Hydref 4 a 18; Tachwedd 1, 15 a 29 a Rhagfyr 13. Mae croeso i unrhyw un ymaelodi. Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Richard Llwyd Jones (670115).

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

CEIR CYMRU

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

(Parhad o dudalen flaen)

draws Bae San Francisco, a charchar enwog Alcatraz allan yn y bae. Ac os am syniad o faint, cyfeiria Gareth at groesi yr afon Ohio yn Louisville, Kentucky (man geni Mohammed Ali) a'r afon yn filltir o lèd.

Fe gadwodd Gareth gofnod o'r daith ar ffurf dyddiadur ac felly cawn rannu rhai o'r profiadau gydag ef. Rwy'n siŵr y buasai darlith ar y daith yn llenwi ambell i noson wag yng nghalendr rhai o gymdeithasau'r fro.

Dyma rai o brofiadau Gareth yn ei eiriau ei hun.

* * *

'Cychwyn y daith ar Route 1 gan anelu i'r de i gyfeiriad Richmond, Virginia. Cyrraedd hen brifddinas y Confederacy ar Orffennaf 4ydd, sef diwrnod dathlu Annibyniaeth y wlad. Tymheredd yn 45graddC. Mor fuan i'r daith cefais broblem gyda'r olwyn ôl. Roedd 'spoke' yn torri bob dydd. Dim siawns o siop feic ar agor. Cyfarfod dau feiciwr arall, Paul oedd yn 60 oed ac Ian oedd wedi priodi chwaer Paul ac wedi mudo o ochrau Lerpwl i'r Amerig.' [Yma mae Gareth yn cyfeirio at y cyfeillgarwch a'r croeso a gafodd ar y daith.]

'Gwario'r pnawn gyda Ian a'i wraig. Wedi beicio 100 milltir roedd y gawod a llond bol o fwyd yn dderbyniol iawn. Cysgu yn nhŷ Paul a Marcia, a brecwast a hanner cyn mynd ymlaen. Roedd y ddau wedi trefnu i mi aros gyda brawd Marcia a'i theulu yn nhref Buckingham, 60 milltir i lawr y lôn. Tŷ enfawr gyda 'gardd' o 50 acer o'i blaen.

Diwrnod wedyn tua'r gorllewin daeth yr her gyntaf - mynyddoedd yr Appalachians. Ardal hardd ofnadwy, ac yn elfen bwysig o'r daith gan ei fod yn gwella fy ffitrwydd oherwydd y gelltydd serth. O hyn ymlaen roeddwn yn ffyddiog y gallwn seiclo hyd at 100 milltir y diwrnod.

Diwrnod 11: Cyrraedd dinas Charleston, a dyma'r unig ddiwrnod llawn o orffwys. Dim beicio o gwbl.

Diwrnod 12: Wedi beicio am 125 o filltiroedd cyrraedd dinas Louisville, Kentucky, dinas fawr ar lannau'r Ohio.

Diwrnod 15: Cyrraedd dinas St. Louis, a mynd i ganol y ddinas, a hithau'n ddydd Sul roedd yn 'gymharol' dawel. Mynd i weld y Gateway Arch.

Am y ddau ddiwrnod nesaf mynd ar hyd yr enwog Route 66. Croesi talaith Missouri a cychwyn y daith ar draws y 'Plains' dibendraw. Gwneud amser da oherwydd y ffyrdd gwastad.

Cyrraedd Pueblo, Colorado ac

o'm blaen maint a harddwch mynyddoedd y Rockies. Dipyn o hiraeth am adra - llawer uwch nag Eryri. Ardal y gelltydd enfawr. Falch o goncro'r Monarch Pass oedd dros 11,000 uwchben lefel y môr. Er bod y tymheredd erbyn hyn, ar gyfartaledd, rhyw 40C roeddwn wedi cynefino ac yn teimlo y buaswn yn cwblhau y daith o fewn y targed o 40 diwrnod.

Talaith Utah. Mynd o Rangely i Duchanesne (110 milltir) gan groesi dan fwch dros 9,000 troedfedd. Ar y ffordd galw i mewn i siop ym mhentref Colton, yr unig adeilad ar ôl yn y pentref. Sgwrs gyda'r hen ŵr oedd yn berchen y siop. Yntau'n dweud fod ei dad wedi body yn ffrind i'r enwog Butch Cassidy a dangosodd lun ei dad gyda'r lleidr enwog. Esboniodd fod Robert Redford, a chwaraeodd ran Sundance Kid yn y ffilm, yn byw ar ranch 6,000 acer i lawr y ffordd. Ar hap gwneud cysylltiad rhyfeddol.

O'r mynyddoedd ar draws anialwch gorllewin Utah a Nevada. Ffyrdd unionsyth, er y deuai ambell godiad tir hyd at 8,000 troedfedd yn Nevada. Tywydd poeth a sych. Yn Nevada y gwnes y pellter mwyaf o feicio mewn diwrnod, sef 155 o filltiroedd, ac ar y diwrnod hwnnw croesi'r parth amser olaf rhwng trefi bychan Delta ac Ely. Cyfarfod gŵr a gwraig yn Lodi, California mewn tŷ bwyta. Cael cyfarwyddiadau am y ffordd orau i gyrraedd San Francisco ar y diwrnod olaf. Wedi cael y wybodaeth, sylwi eu bod wedi talu am y pryd drosta i.

Y diwrnod olaf oedd yr un mwyaf poenus. Roedd gen i ddau 'dube' wrth gefn. Gobeithio na chawn 'buncture' yn ystod y 100 milltir olaf o'r daith. Ie, dwy 'buncture' yn y 30 milltir cyntaf - 70 i fynd! Braf felly oedd gweld yr anfarwol Golden Gate a digon o wynt oddi tanaf. Roeddwn wedi cwblhau y daith yn y 40 diwrnod penodol.

[Diwedda Gareth gyda chrynodeb byr o noson y dathlu yn San Francisco, dinas y bu Bryn ei dad ynddi yn ystod ei gyfnod ar y môr.]

'Mynd i dafarn Liverpool Lils a dathlu gyda phlatiad enfawr o sglodion a physgodyn wedi ei olchi i lawr gyda pheint o Ginis oer! Cyfarfod dau yno - yn wreiddiol o Ddilyn.

Sôn am ddathlu! Sawl gwydraid o win - a photel o siampen! O 7pm i 2am y bore wedyn. Os dathlu, dathlu'n iawn.

Y bore wedyn i'r Internet Café a chael tocyn hedfan adref.'

* * *

Diolch i Gareth am rannu'r profiadau - a llongyfarchiadau iddo.

CADW CYSWLLT

Beth amdani? A ydym am weld gwella?

Yn y flwyddyn 2004 bu ein gohebydd, a'i gamera, yn dyst o'r hyn a ddigwydd yn yr Alban, sy'n wlad Geltaidd fel ninnau. Cymerir Symington fel enghraifft o'r hyn y gallai pentrefi yn nhalgylch *Eco'r Wyddfa* ei fabwysiadu, a llawer man arall yng Nghymru ein gwlad, ran hynny.


Pentra gwledig ydy Symington, wrth ymyl tref Biggar, yn yr Alban. Man gwledig ydyw, a man hynod dwt a phrydfarth, ac fel lleoedd er'ill yr ymwelwyd â hwynt yng ngwlad Wiliam Wallace, y mae'r Albanwyr yn g'neud yn fawr o'u hanes. Ymhyfrydent hefyd mewn dangos i'r cyhoedd yr hyn a ddigwydd yng nghyfarfodydd eu Cynghorau Cymuned, a'r hyn a gyflenwir gan eu Haelodau Seneddol. Ia, mae ganddynt hysbysfyrddau.

Y mae'r taflenni gwybodaeth, a gynhwysir ar yr hysbysfyrddau, hefo enwau, cyfeiriadau a rhifau teliffonau aelodau'r Cynghorau Cymuned, yn ei gwneud hi'n haws i gysylltu hefo nhw ynghylch materion. Fel ymwelwr roedd hynny'n gaffaeliad, yn enwedig os ydych newydd symud i fyw yno, ac angan cymorth arnoch.

Gwelwyd yn yr amlwg fod Agenda y Cyfarfod nesaf wedi ei arddangos, a hefyd ddyddiadau'r holl gyfarfodydd Cynghorau Cymuned am y flwyddyn gyfan.

Ydy', mae *Eco'r Wyddfa* yn cynnwys adroddiadau cynhwysfawr o'n Cynghorau Cymuned, a diolch byth am hynny. Mae hynny'n beth i'w groesawu hefo breichiau agored. Ein broydd a'n pentrefi ni sy' yma, ac ymhyfrydwn yn y gwaith da a wna ein Cynghorwyr mor ddi-ddiolch amdano. Ond cyn cyfarfodydd pryd y gwelsoch chwi Rybudd ac hyd yn oed Agenda o'r materion y bwriedir eu trin a'u trafod, a gwahoddiad i chwi ddyfod draw i wrando ar y gweithgareddau. Y mae hawl gennych fel aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd, ond ni chewch bleidleisio. Yn dra aml, clywir fod y cyhoedd wedi dieithrio ac ymbellháu oddi wrth wleidyddiaeth. Onid ydyw cyflwyno gwybodaeth drwy gyfrwng hysbysfyrddau yn fater i'w drafod, a'i groesawu yn ein broydd? Mae'n drefn yn yr Alban. Pam ddim yma yng Nghymru?

O'r gora', danfonwch air atom. Mynegwch eich barn.



UN FUNUD FACH

AWB Â'I FARN

Doeddwn i ddim wedi sylweddoli fod yna gymaint o geir coch ar y lôn nes i mi gael car coch fy hun. Roeddwn yn eu gweld ymhob man wedyn.

Cododd y Pab nyth cacwn wrth gyfeirio at Islam mewn darlith yn yr Almaen. Ymysg y rhai a'i beirniadodd oedd Arlywydd Rwsia, Vladimir Putin, oedd yn mynnu fod rhaid i arweinwyr crefyddau'r byd ddangos mwy o ofal a phwyll cyn mynegi barn.

Yr un pryd roedd cyn Arlywydd Iran, Muhammad Khatami, yn Washington yn galw ar Gristnogion a Mwslemiaid ac Iddewon i gydweithio er mwyn dod â heddych i fydd treisgar.

Ac ar drywydd hollol wahanol, yma yng Nghymru, roedd o leiaf ddau lythyr yn yr *Herald* yn cwyno am safon Cymraeg y radio a'r teledu a hyd yn oed golofnwyr yr *Herald* ei hun.

Be ddeudis i am geir coch? O ia, rhyfedd fel y gwelwch chi nhw ym mhob man unwaith y dechreuwch chi sylwi arnyn nhw. Felly'n union efo pobl sydd mor barod i fynegi barn ac i ddweud wrth eraill beth i'w wneud. Dyna Putin yn cynghori'r Pab i bwylllo, ag yntau fwy nag unwaith yn rhuthro i anfon ei filwyr i sathru ar bob gwrthryfel mewn gwledydd fel Chechnya. A Khatami yn telynegu am gydweithio rhwng y crefyddau, gan wybod yn iawn fod lleiafrifoedd crefyddol wedi cael eu cam-drin a hyd yn oed eu lladd yn Iran yn ystod ei deyrnasiad ef. A'r plismyn iaith yn beirniadu safon Cymraeg hwn a'r llall, gan wneud hynny mewn llythyrau ag ynddyn nhw fwy nag un gwall gramadegol.

Mae eisiau deryn glân i ganu. Soniodd Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd am y perygl o weld y brycheuyn yn llygaid rhywun arall er bod yna drawst yn ein llygaid ein hunain. Mae mor hawdd beirniadu craill, â ninnau'n aml yn euog o'r un beiau'n union.

Ond nid yw hynny'n golygu na fedrwn ni fynegi barn neu fod yn feirniadol o ymddygiad pobl craill. Mae yna le i hynny, os ydym am dynnu sylw at wirioneddau a safonau glân Duw. Onid oes rhyddid i ni feirniadu credoau ac ymddygiad pobl eraill ar yr amod nad ydym yn gwneud hynny mewn ffordd hunangyfiawn, a'n bod yn barod i ddefnyddio'r un llinyn mesur ar ein cyfer ein hunain ag a ddefnyddiwn ar eu cyfer hwy.

JOHN PRITCHARD

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Rhai o Deulu'r Brain ac Ambell Aderyn Brith yn eu Plith

Rhyw feddwl ei thanio hi hefo'r flwyddyn 2005, ond fel arall y bu hi. Beth a ddigwyddodd meddech chwi? Fe ellir beio'r colofnydd am daro ar ddernyn o bapur a sgwennu arno, sef nodiadau a gadwyd gennyf yn ystod blynyddoedd 1985-1988 ac a fu am dalm o amsar o'r golwg rhwng tudalenna' llyfr ymdrin â byd Natur yn y Gymraeg. Sgwennu trwsgwl, hynod frysiog, - tra'd brain myn ufflwn! Ia, fy llawysgrifan i! Mi fyddai fy mam, pan oeddwn yn yr ysgol Gynradd, fyth a beunydd yn d'eud y drefn yn hallt wrtha'i fy mod i'n ffurfio fy 'n' a'm 'm' yn rhy debyg i'w gilydd ac yn peri imi eu hymarfarn yn gywir ar bapur drwy gopio'r llyth'renna' o'i heiddo hi. Mae'n ddrwg gen i, mam, ond mae fy 'n' a'm 'm' yn dal fel brain â'u tina' ar biga' drain!

Jacdo

Diwedd Mawrth 1987 - Haid o jacdoaid yn codi o'r coed; crawcian yn ddi-stop. Maent yn ffurfio'n gwmwl du'n yr awyr; yn cylchu'n uchaf; yn troi a throelli; yn rasio ar ôl ei gilydd, cyn diflannu yn eu hola' i'r coed.

Dydd Sul Mawrth 12fed, 1987 - Dau jacdo ar ben y to; yn glanhau eu gylfina' ac yna'n

cerddad ar hyd y llechi gan bigo yma ac acw am bryfad; yn hedfan i ben clawdd o dan y tŷ. Daw ddau jacdo arall atynt. Heb aros yn hir yn bedwarawd! Maent yn gwahanu.

Ebrill 22ain, 1985 - Jacdo, (08.45), yn glanio heb fod ymhell oddi wrtha' i ac yn prysuro i falurio papur a daflwyd ar y llawr. Mae'r aderyn yn rhwygo'r papur yn ddarna' llai ac yn hedfan hefo nhw, a diflannu i dwll dan fondo un o'r tai cyfagos.

Ebrill 6ed, 1987 - Rwyf wrth y safla aros bysia'. Mae'n 07.45. Gwelaf jacdo'n codi brigyn yn ei big. Erys. Gwylia, cyn hedfan i ben corn simdda tŷ wrth ymyl.

Diwedd mis Mai, 1985 - Dau jacdo'n glanio wrth y corn simdda; maent yn torri'r bara hefo eu gylfina ac yn ei stwffio i ganol llwydni a duwch y simdda.

Mehefin 15ed, 1985 - Mae un o'r jacdoaid yn mynd i fewn i'r corn simdda, a'r llall yn aros tu allan. Mae o'n ysgwyd ei gynffon yn barhaus ac yn crawcian. Daw'r llall o'r nyth, gan lanhau ei phig ar lechan ar ymyl y simdda.

Ebrill 24ain, 1988 - Jacdo, a bwncath yn ffraeo yn yr awyr uwchben; y jacdo'n encilio.

Pioden

Mawrth 21ain, 1988 - Pioden hefo brigyn yn ei gylfin yn hedfan oddi wrtha' i.

Mawrth 24ain, 1988 - Piod, dau

ohonynt yng ngardd ffrynt annedd-dy; deil un ohonynt bry' genwa'r, (mwydyn) yn ei phig.

Drudwen

Ionawr 30ain, 2005 - 09.52 mi wnes i, hefo 'Mistar R,' sef Mr. D. N. Roberts, (tad Linda), Neuadd Glasgoed, o ffenast gegin Y Bwthym, gyfrif dros ddeugain drudwen wedi ymgynnull ynghyd ar goeden sy'n tyfu tu cefn i'r toiledau ar y maes carafana'. Buont yno am dros chwarter awr yn trydar yn ddi-baid. Maent yn cyrra'dd ac ymada'l yn grwpia' ac yn hedfan am gyffinia' Bangor. Yn y pnawn, (15.15), gwelodd Linda a finna' gannoedd o ddrudwy fel cwmwl yn yr awyr uwchben afon Conwy, a chwmwl bychan yn prysur ddyfod ar eu hola'! Am wn i mae'r adar ara' i godi oedd y rhai a ddilynai o hirbell!

Dydd Mawrth, Rhagfyr 6ed, 2005 - Pum drudwen yn pigo bwyd ymhlith yr ieir, a hynny ben bora ar fferm Neuadd Glasgoed.

Dydd Iau, Rhagfyr 15ed 2005 - Bora heddiw, un ddrudwen wedi ymuno, a chyd-fwyta hefo iâr ar fuarth fferm Neuadd Glasgoed.

Cofiwch ddanfôn yr AROLWG BRAIN A DRUDWY at Dafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, LLANRUG erbyn diwedd mis Tachwedd.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

DRAENOG

AR GOLL YN NEINIOLLEN

Glywsoch chi am un o ddosbarthwyr yr *Eco* yn Llanberis yn mynd i Ddeiniolen i nôl yr *Eco* y mis diwethaf. Dywedwyd wrtho mai yng nghapel Cefn yr Waun yr oedd y papur yn cael ei blygu.

'O dwi'n gwybod yn iawn lle mae o,' meddai'r dosbarthwr. Aeth awr neu ddwy heibio a doedd ddim golwg ohono ac roedd ei wraig yn dechrau pryderu amdano.

Yn sydyn canodd y ffôn yn y tŷ a pwy oedd ar yr ochr arall i'r lein ond ei gŵr.

'HEEEELP,' gwaeddodd, 'DWI AR GOLL, DWI'M YN GALLU DOD O HYD I'R CAPEL!' Roedd ARWYN rhywle ym mhellafoedd Dinorwig yn chwilio am y capel.

Bu'n rhaid i'w wraig roi'r cyfarwyddiadau cywir iddo dros y ffôn a chyn bo hir, a dwy awr yn hwyrach, fe gyrhaeddodd yr *Eco*'n ddiogel o Ddeiniolen i Lanbêr.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warrant 3420271

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

GALW GWEINIDOG. Erbyn hyn mae Pwyllgor Bugeiliol Gofalaeth Glannau'r Saint wedi cyfarfod ac wedi penderfynnu cynnig galwad i'r Parch. Marcus Robinson i weinidogaethu yng eglwys Y Cysegr a Chapel y Rhôs. Yn ôl y drefn gofynnir i aelodau'r ddau gapel bleidleisio dros neu yn erbyn y bwriad. Fe gynhelir y bleidlais yn ystod oedfa'r bore yn y ddau gapel ar Hydref 1af. Bydd y bleidlais gudd dan oruchwyliaeth cynrychiolwyr o Henaduriaeth Arfon. Dim ond y rhai fydd yn bresennol fydd yn cael pleidleisio, felly taer erfynnir am gynrychiolaeth dda o aelodau yn yr oedfa.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd dwy wled yn y cyfarfod i agor y tymor eleni. Croesawodd y Llywydd, Anne Elis, bawb gan gynnwys un aelod newydd, Mrs Brenda Jones o Gaernarfon. Cawsom ein diddanu gan ddwy eneth hynod o dalentog o Benisarwaun, sef Lois Eifion ac Anest Bryn, yng nghwmni eu rhieni, John Eifion a Marina. Bu i ni fwynhau y canu, y dawnsio a'r straeon donion ynghyd â chwarae hynod ddawnus Lois ar y piano.

Yn dilyn cawsom 'Flasu Bwyd y Byd' pan baratowyd bwyd o chwech o wledydd y byd, sef Cymru (Joyce ac Edith), Sbaen (Bet ac Eirlys Sharpe), Groeg (Margaret Druce a Rita), Ffrainc (Glenys a Mary), Tsieina (Nora a Sheila), Yr Eidal (Anne a Gwyneth Jones). Mawr fu'r diddordeb a'r hwyl wrth flasu. Diolchodd Elisabeth Evans i aelodau'r pwyllgor am yr holl waith caled. Margaret Druce (yr Is-lywydd) ddiolchodd i Lois ac Anest a llongyfarchodd Anne (y Llywydd) ar ddod yn nain i Steffan Pyrs, ac ar ddyweddïad Dyfan gyda Lucy o Gaernarfon.

Bu i Anne gydymdeimlo gyda Deilwen Hughes ac Eryl Roberts, y ddwy wedi colli eu mam-yng-nghyfraith. Llongyfarchwyd Huw Llywelyn ar dderbyn dwy ysgoloriaeth i helpu ei yrfa operatig a hefyd Ffion Williams ar fod yn rhan o'r Theatr Ieuencid Genedlaethol yn ystod yr haf. Dymunwyd yn dda i bawb oedd unai wedi graddio, wedi cael llwyddiant yn eu arholiadau Lefel A a TGAU ac i Joyce oedd ar fin mynd i'r ysbyty i gael llawdriniaeth.

Cawsom fanylion drwy law Siân Davies am ddiwrnod gweithgareddau Celf a Chrefft i'w

gynnal ddydd Sadwrn, 21 Hydref yn Ffestri Capel Jeriwsalem, Bethesda. Ein gwraig wadd y mis nesaf fydd Dr Angharad Price o Gaernarfon, un o blant Bethel.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Mehefin: Pauline Wetherby, 4 Bro Eglwys (27): £40; Margaret Eckley, Gerddi (124): £20; Nan Owen, Saron (141): £10.

Gorffennaf: Ceris Williams, 1 Tan y Cae (91): £40; Rhianwen Gadd, 3 Y Ddôl (5): £20; Gareth a Manon Griffiths, 9 Eryri (24): £10.

Mae blwyddyn y Clwb wedi dod i ben gyda gwobrau Gorffennaf ac mae'r casglwyr yn mynd at yr aelodau i gasglu aelodaeth 2006/2007. Mae'r Neuadd yn dibynnu ar elw'r Clwb 200 a taer erfynnir ar i'r holl aelodau ailymaelodi a chroesewir aelodau newydd yn gynnes iawn.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i blant a ieuencid y pentref sydd yn gweld newid byd ar ddechrau tymor newydd. Pob lwc i'r plant sy'n cychwyn yn yr ysgol Feithrin a'r ysgol Gynradd, rhai sy'n mynd ymlaen i ysgol Uwchradd a'r ieuencid sydd yn mynd ymlaen i goleg ac i waith.

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd yn ddiweddar i gyfarfod cyntaf o'r Clwb. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Goronwy Jones. Pasiwyd bod rhai o'r aelodau yn mynd o amgylch yr ardal i godi arian er lles yr henoed a gofynnwyd i'r Llywydd osod torch ar y Gofeb ar Sul y Cofio. Bobby Haines, oedd y siaradwr gwadd a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo yn sôn am ei fagwraeth yng Nghaernarfon, a sut mae'r ardal wedi newid dros nifer o flynyddoedd. Dangosodd luniau o wahanol adeiladu yn y dref a oedd yn agos iawn at ei galon. Roedd ganddo stôr o wybodaeth am bersonau a digwyddiadau a chafwyd sawl hanes difyr ganddo yn ystod y prynhawn.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y Prifardd Selwyn Griffith - y ddau wedi bod gyda'i gilydd yn yr ysgol yng Nghaernarfon. Bydd y cyfarfod nesaf ar 3 Hydref, yn Ffestri Cysegr gyda Gwyn Williams, Bethel, yn ŵr gwadd.

GYMDEITHAS LENYDDOL. Bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas eleni ar nos Fawrth, 17 Hydref, am 7.15 yn Ffestri Cysegr. Y gwesteion fydd John Eifion a'r Teulu. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Waunfawr ar 6 Medi. Roedd y Cyng Clive James, y Cadeirydd, a'r Cyng Vera Roberts yn bresennol. Ar ddechrau'r cyfarfod roedd Mr Alun Ffred Jones AC yn bresennol. Ar ôl atgoffa'r aelodau o'r etholiadau ym mis Mai 2007 a'r newid y n y ffiniau etholaethol a'r ddeddfwriaeth newydd, cafwyd amlinellu o'i farn ar faterion iechyd, tai, ffyrdd a gwaith. Bydd yr Heddlu yn cadw lygaid ar barcio dros y ffordd i Garej Gwalia. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno o docio'r coed celyn rhwng Eryl Cottage a'r Nant, ac wedi ailgodi'r 'hydrants' dw'r ar y sgwâr. Bydd camera cyflymder traffig yn cadw llygad ar y gor-yrru ar ochr Bontnewydd o'r cylchdro. Bydd y Cyngor Cymuned yn talu am hysbysfwrdd newydd. Hefyd bydd pren y lloches i deithwyr bws yn cael ei drin er mwyn ei gadw, y llwybr rhwng Caeathro Bach a'r cae pêldroed yn cael ei ledu a'r gwairt o flaen y gôl ar y cae chwarae yn cael ei ail-wynebu. Yn y cyfarfod nesaf, ar 18 Hydref, bydd ceisiadau grant i fudaiddau lleol yn cael eu trafod.

GWASANAETHUA'R CAPEL.

Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Capl yn ystod mis Hydref.

1: 10.00 o'r gloch: Gwasanaeth Diolchgarwch ar gyfer y gynulliedfa a phlant yr Ysgol Sul
8: 11.00 Ysgol Sul
15: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Reuben Roberts

22: Dim gwasanaethau

29: 2.00 Parch Gareth Maelor

TYNFA MISOL. Enillwyr tynfa misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Medi oedd:

£40: (7) Ellyn Roberts, 10 Erw Wen;
£25: (108) Teulu Llandyfein; £15: (94) Reg Chambers Jones, Hafod Wen; £5: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos.


CYMDEITHAS Y CAE CHWARAE
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn Nhafarn Bryngwna ar nos Lun, 22 Medi. Roedd naw yn bresennol a dau ymddiheuriad. Adroddod y Cadeirydd fod y flwyddyn a fu wedi bod yn un efo ychydig o newidiadau, e.e. grŵp pop yn chwarae yn y Miri Haf. Roedd y gymuned yn ffortunos roedd ychydig yn fodlon gwneud, ond llawer yn fodlon cyfrannu i'r Tynfa Misol. Yn anffodus, roedd rhaid galw'r Heddlu oherwydd fandaliaeth ac yfed ar y cae pêldroed.

Ailetholwyd Clive James, Wyn

Jones a Tim Lloyd fel Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd. Etholwyd Aled Vaughan, Jason Thorman-Jones, Norman Hughes, Peris Thomas, Alun Roberts, Eryl Jones, Dewi Jones, Huw Ceiriog a Richard Jones i'r pwyllgor. Oherwydd rhesymau teuluol nid oedd y Trysorydd yn bresennol er mwyn cyflwyno'r fantolen felly bydd rhaid ail-ymgynnull y cyfarfod am 8.00 nos Lun, 16 Hydref. Yn y pwyllgor nesaf, ar yr un noson, byddwn yn cyfethol un aelod arall i'r pwyllgor.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Arwel a Nia, Tai Glangwna ar eu priodas draw yng Nghyprus.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

**AGE
Concern**

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleoli ledled y DU

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CRONFA'R HENOED. Pêl Bonws Loteri: Enillydd mis Awst oedd Mrs Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt. Llongyfarchiadau mawr.

Bingo: Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned nos Wener, 29 Medi am 6.30. Bydd armywiol wobrau, raffi a phaned. Mynediad yn 50c i oedolion ac 20c i blant. Yr elw at Gronfa'r Pensiynwyr.

PEN-BWLYDDI ARBENNIG.

Llongyfarchiadau i Geraint Williams, Careb, Bryn Eglwys, ar achlysur pen-blwydd arbennig oddi wrth pawb o'r teulu.

Pen-bwlydd hapus arbennig hefyd i Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 3 Hydref. Pob bendith gan Liz, Eric, Sioned, Dyfed, Bethan, Aled a'r teulu oll a sws fawr i hen nain annwyl gan Beca. Mwynhewch eich diwrnod mawr.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr oedd: Efa Tomos, Cricieth; Arwel Jones, Cae Eboni; Bessie Williams, Llys Myfyr.

Atgoffir chwi am y Calendr sydd yn mynd 'o law i law' aelodau'r pwyllgor. Gellir prynu diwrnod o'r Calendr am £1 yr un - gobeithir gwerthu'r 365 erbyn y Nadolig. Bwriedir cynnal gweithgareddau pellach yn ystod y tymor.

YSGOL SUL BOSRA. Braf gweld yr aelodau yn dod yn ffyddlon unwaith yn rhagor. Rydym yn wir ddiolchgar o'r bwrdd i gael gwneud gwaith llaw - mae'r plant wrth eu boddau. Buasai'n braf petai'r aelodau yn gallu denu ffrindiau atom. Mae croeso mawr i aelodau newydd.

APÊL Y CAPEL. Cynhaliwyd 'Ras Peli' ar Afon Seiont, Crawiau, fore Sadwrn 16 Medi a'r enillwyr oedd:

1. Eirianwen Thomas, Llanrug
2. Huw Davies, Hendre, Penisarwaun; 3. Sara Ackers, Caernarfon.

Gwnaed elw sylweddol, o gwmpas £350, a diolchir i'r rhai fu'n trefnu, gwerthu a phrynu. Diolchir i Mrs Brenda Davies, Hendre Penisarwaun am ei rhodd haelionus hithau.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Dafydd Du, Cae Eboni a Rhiannydd Wynne, Caerdydd, ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Nia Porter a Kelvin ar enedigaeth eu merch fach, Gwenllian Medi. Llongyfarchiadau mawr i Carole a Len Porter ar ddod yn nain a thaid blach a hynny am y tro cyntaf. Pob bendith i chwi fel teulu.

CYDYMDEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf ag Islwyn. Wena ac Iwan, Cae'r Bleddyn, a'r teulu oll yn eu colled enfawr ym marwolaeth cynnar Iris, gwraig annwyl a mam ofalus ac un a fu'n weithgar yn y pentref ac yn gefnogol i'r amrywiol weithgareddau.

YSGOL GYMUNED. Estynnwn

groeso mawr i'r pump bach newydd i'n plith: Brett, Llion, Cai, Iwan ac Elin. Erbyn hyn mae'r pump wedi setlo yn dda iawn. Pob lwc iddynt yn yr ysgol. Hefyd croesawn Miss Williams yn ôl i'n plith. Mae'n braf cael ei chwmmi unwaith eto.

Cynllun Ysgol Iach

Fel ysgol rydym wedi ymrwymo eleni i ddilyn cynllun ysgolion iach. Mae'r cynllun yn ein galluogi ni fel ysgol i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles ein disgyblion, staff a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd. Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd yn ofynnol i ni fel ysgol gyflawni 10 pwynt gweithredu ysgolion iach.

- datblygu ar y cysylltiadau gyda'r cartref, y gymuned a gwasanaethau arbenigol perthnasol, gan bwysleisio gwir bartneriaeth a'r awydd i ddod yn Ysgol iach.

- datblygu agwedd bositif ysgol-gyfan tuag at fwyd a maeth a sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo.

- weithredu i atgyfnerthu hunan werth a hyrwyddo iechyd meddwl y disgyblion

- dangos ymrwymiad i wella amgylchedd yr ysgol, er hyrwyddo iechyd a lles holl gymuned yr ysgol. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfrannu tuag at y cynllun mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â'r ysgol. Gwersi Offerynnol. Eleni mae deg o ddisgyblion yr ysgol yn cael cyfle i ddysgu canu offeryn chwyth gan Mrs Yvonne Clarke a Dylan Evans. Pob lwc i'r criw.

Clwb Brecwast. Wel, mae'n rhaid codi cyn cŵn Caer y dyddiau yma. Ers dechrau mis Medi mae Clwb Brecwast wedi agor yn yr ysgol. Mae cyfle i'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol gael brecwast maethlon rhwng 8.15 a 8.50 o'r gloch.

Clwb Plant. Yn anffodus mae Anti Diane yn gorffen yn y Clwb yr wythnos yma. Dymunwn bob lwc iddi a diolch o galon am ei chyfraniad i'r Clwb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn ar y llaw arall groesawu Carolyn Jones fel cynorthwy-ydd newydd y Clwb. Hoffwn eich atgoffa fod y Clwb ar agor o ddydd Llun tan ddydd Iau, rhwng 3 a 5 o'r gloch y prawn. Llongyfarchiadau i Carole a Len Porter ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

DYMUNA Islwyn. Wena ac Iwan, a'r teulu i gyd ddiolch yn ddiifant iawn i bawb a fu'n garedig wrthynt yn ystod eu profedigaeth enfawr o golli Iris. Diolch am yr ymweliadau i'r cartref, y llythyrau a'r holl gardiau. Diolch hefyd i'r Parchedig Ronald Williams, Caernarfon, am ei wasanaeth a'i gyfeillgarwch ac i Gwyn Jones, yr Ymgymherwr, am ei garedigrwydd a'i gymorth. Bydd yr arian a roddwyd er cof am Iris, sydd dros fil o bunnau hyd yn hyn, yn cael ei drosglwyddo i Ymchwil Cancr y Fron.

Iris Lloyd Williams

Cae'r Bleddyn

a fu farw ar 5 Medi 2006, yn 50 mlwydd oed.



Coffad Iris

gan John Paul Jones,

cyd-athro yn Ysgol Glanwydden

Mae un dywediad yn disgrifio Iris: 'You can take Iris out of Caernarfon but you could never take Caernarfon out of Iris.'

Roedd Iris yn gymeriad unigryw a lliwgar a bydd colled enfawr ar ei hôl i'w ffrindiau yn Ysgol Glanwydden. Dechreuodd gyda ni yn 1994 fel athrawes lanw ond yn fuan iawn daeth yn aelod parhaol o'r staff. Nid athrawes yn unig mo Iris i'w phlant; roedd yn nyrs, yn weithiwr siocolegol, yn lanhawraig, yn fam ac yn ffrind gorau. Roedd pob plentyn o fewn ei dosbarth yn ei haddoli ac roedd hynny yn amlwg wrth gerdded i mewn i'w dosbarth a gweld y plant ar y mat o'i blaen yn sylly ym myw ei llygaid a'u clustiau bach yn gwrando yn astud ar bob gair o'i genau. Roedd Iris yn athrawes ardderchog, yn wir mewn Arolwg HMI nodwyd bod ei gwersi yn arbennig a gwnaethpwyd sylw i'r tîm rheoli ei bod yn 'werth pob ceiniog'.

Roedd Iris yn dod i adnabod ei phlant drwyddi draw ac yn gallu uniaethu gyda'u anghenion, yn enwedig y rhai gwan a 'gwahanol' - gwelwyd ffrwyth ei gwaith yn ei hastudiaeth, a enillodd M.Ed. iddi yn ôl yn 2001. Trwy gydol ei thraethawd maith, ni laciodd ei hymroddiad i'w gwaith dosbarth.

Roedd nosweithiau rhieni Iris yn nosweithiau hir iawn, yn enwedig pan y byddwn yn dal i aros amdani toc wedi hanner awr wedi pump! Byddai'n trin a thrafod pob plentyn yn helaeth gyda'r rhieni ac roedd ei hadroddiadau yn fanwl dros bcn ac yn llawn hiwmor a phositifrwydd, hyd yn oed pan oedd Joni bach mewn gwirionedd yn ddwl fel postyn giât. Roedd ganddi ei ffordd unigryw o ddweud pethau fel roedden nhw, heb fod yn troi'r drol. Daeth nifer o rieni i'n gweld fel staff yn ystod yr wythnosau diwethaf ac roedd pob un yn dweud ei bod gyda'r ddawn o adnabod ac uniaethu gyda'u plant.

Efallai bod Iris yn athrawes cystal gan ei bod yn defnyddio'r adnoddau o'i hamgylch mor dda, gyda hynny rwy'n golygu 'adnoddau dynol'. Roedd 'mynd a dod a gwneud' yn rhywbeth roeddwn i wedi cryn arfer efo fo dros amser. Yn fuan wedi i mi gychwyn yn Ysgol Glanwydden yn 1999 roedd yn gwneud synnwyr i Iris a minnau rannu'r siwrne i'r ysgol. Daethom yn ffrindiau da a byddem yn rhannu meddyliau a chanu ar hyd y ffordd i'r ysgol. Roedd ganddi beiriant mesur

tymheredd yn y car ac yn ystod misoedd y gaeaf os y dangosai '30' byddai'r ddau ohonom yn dechrau canu 'When will I see you again'. Canwyd nifer o ganeuon eraill hefyd gan newid ychydig ar y geiriau, 'There once was a teacher in Glanwydden School' (There once was a windmill in old Amsterdam). 'You picked a fine time to leave me, Lucille, three hundred children and a croc in the field.'

Serch hynny, roedd un peth yn wahanol iawn rhyngom - roeddem ein dau yn byw mewn 'timezone' hollol wahanol! Roedd cael Iris i'r ysgol ar amser bob bore yn fwy o her na cherdded yr Wyddfa mewn storm eira. Ond roedd yna reswm penodol a gwahanol bob bore - pob un mor anghredadwy â'r diwrnod blaenorol.

Fe fydd y gwacter mwyaf yn yr ystafell athrawon. Roedd gan Iris sgil arbennig wrth ddweud stori oedd yn golygu ei bod ni gan fwyaf yn ein dyblau yn chwerthin. Roedd bwyta heb wneud llanast yn her ynddo'i hun. Roedd ei straeon yn syml ac am ei bywyd bob dydd ond roedd ei dull o'u hadrodd yn destun digrifwch mawr - roedd ei chefnidir 'Cofi' yn fyw i ni a'i ffrathineb yn ddi-flewyn. Mae gallu ailadrodd ei straeon yn gyhoeddus yn ei dull hi yn anodd.

Mae un stori wastad yn dod i'n cof fel staff - yr un am brynu paent yn B&Q. Tydw i ddim yn ei chofio yn gyfan, ond un diwrnod fe aeth hi ag Islwyn i brynu tun o Mongolia (fel y byddai'n ei alw) ac wrth fynd i dynnu tun i lawr fe gododd caead un arall a thywallt y paent drosti. Roedd golwg mawr arni, ei dillad yn baent trwchus a'r llawr wedi ei orchuddio mewn haen o slwji lliw hufen. Mi alla i ddychymgu'r olwg oedd arni yn mynd adref! Yn ôl y sôn roedd hi wedi ei gorchuddio o'i phen i'w thraed mewn bagiau bin fel na wnâi hi fwy o lanast ar y ffordd allan o'r siop, ac wedyn yn y car. Dychmygwch Iris yn dweud y stori, ei disgrifiadau bywiog, llachar a phawb yn rowlio chwerthin! Dim ond Iris, yndé?

Llynedd dechreuwyd clwb colli pwysau yn yr ysgol ac roedd Iris yn benderfynol o golli pwysau. Teimlai fod angen rheswm i'w chadw yn gryf ei chymhellid ac yn ystod y sesiwn pwysu cyntaf gwnaeth yn siŵr ei bod mor drwm â phosib. Llwythodd ei phocedi efo arian a gwisgodd y gôt a'r esgidiau trymaf posib. Ar gyfer y pwysu nesaf gwisgodd ei dillad ysgafnaf, er yn weddus, wrth gwrs. Bu iddi hyd yn oed dynnu allan y 'fake boob' yn y gobaith y byddai wedi colli ychydig bwysau ychwanegol. Ni fu'n hir cyn i ni sylweddoli beth oedd ei thriciau a bu i'r sesiwn pwysu fynd yn gomedi.

Dyna sut un oedd Iris. Roedd ei phresenoldeb bob amser yn anrhagweladwy, ond yn adloniant aruthrol.

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol wedi bod mewn sioc yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae cyfeillion, rheini, swyddogion Sir, Llywodraethwyr a hyd yn oed gyn-ddisgyblion wedi ymweld â'r ysgol i ddangos parch. Mae digwyddiadau'r wythnosau diwethaf wedi bod yn anodd ond mae ysbryd Iris yn trechu, a bydd yn parhau i wneud hynny am amser maith.



Newydd ddylfodiad yr ysgol.

CHWILOTA

AMRYWIOL BYTIAU



Ymddiheuriadau cyn cychwyn ar druth y mis hwn! Roeddwn wedi bwriadu rhoi hanes y teulu o'r Waunfawr ble claddwyd un brawd ar ddydd bedydd brawd arall – peth digon cyffredin erystalwm pan fyddai mam wedi marw ar enedigaeth plentyn, a'r baban yn cael ei fedyddio ar arch y fam. Cawsom hanes digwyddiad o'r fath eisoes yn y golofn hon. Ond dyma'r tro cyntaf i mi ddod ar draws achos o fedydd a chladdu dau frawd ar yr un amser. Yn anffodus (neu'n ffodus erbyn y rhifyn nesaf), daeth mwy o wybodaeth i'r fei ynglŷn â'r teulu, eu hynt a'u helynt, a bydd yn rhaid ailwampio rhywfaint ar yr hanes gwreiddiol. Felly, rhaid bod yn amyneddgar tan y tro nesaf!

Ysgol Dinorwig

Derbyniwyd y llun drwy law Margaret Roberts, Caernarfon. Mae'n dangos dosbarthiadau 1 a 2 (yr hen Standard Wan a Standard Tw) yn Ysgol Dinorwig tua 1909. Ychydig o wybodaeth sydd am y llun, ond mae Margaret yn tybio mai efeilliaid 'Buarth Newydd', Dinorwig yw'r ddwy eneth sy'n ail a chweched o'r chwith yn y rhes gefn.

Yn y drydedd rhes i lawr, y ferch gyntaf ar y chwith yw Elizabeth Closs Parry, 'Bron Ceris', sef mam Margaret Roberts.

Oes rhywun yn adnabod rhai eraill o'r plant yn y llun?

Canmlwyddiant Capel

Yn y rhifyn diwethaf cyhoeddais lythyr yn gofyn am gymorth gan gyn-aelodau neu aelodau presennol Capel y Rhos, Llanrug (Capel Pontrhythallt gynt). Mae'r adeilad yn dathlu ei ganmlwyddiant yn ystod 2007, ac y mae cynlluniau ar droed i gyhoeddi llyfryn i ddathlu'r canmlwyddiant. Cefais wahoddiad i olygu'r gyfrol. Hyd yma, yn dilyn yr apêl fis diwethaf, daeth un ymateb i law. Rwy'n siŵr fod nifer o ddarllenwyr y golofn hon â chysylltiadau â hen gapel y Bont. Efallai na fu i chwi sylwi ar y llythyr! Dyma apêl unwaith eto am unrhyw ddeunydd ysgrifenedig, lluniau neu atgofion am unrhyw gyfnod yn hanes y capel. Byddwn yn falch o dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r gweithgareddau a fu'n gysylltiedig â'r achos – yr eisteddfodau cynnar, y cwmni drama llwyddiannus, y gymdeithas lenyddol, cymdeithas y chwiorydd, a hyd yn oed hanes y garddwyr yn yr ardd tu cefn i'r festri. Byddai lluniau yn cyfoethogi'r hanes, wrth gwrs. Gyda diolch i'r un sydd wedi cysylltu â mi hyd yn hyn, a diolch ymlaen llaw i'r gweddill ohonoch sy'n bwriadu cysylltu!

Cefais wahoddiad i olygu'r gyfrol. Hyd yma, yn dilyn yr apêl fis diwethaf, daeth un ymateb i law. Rwy'n siŵr fod nifer o ddarllenwyr y golofn hon â chysylltiadau â hen gapel y Bont. Efallai na fu i chwi sylwi ar y llythyr! Dyma apêl unwaith eto am unrhyw ddeunydd ysgrifenedig, lluniau neu atgofion am unrhyw gyfnod yn hanes y capel. Byddwn yn falch o dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r gweithgareddau a fu'n gysylltiedig â'r achos – yr eisteddfodau cynnar, y cwmni drama llwyddiannus, y gymdeithas lenyddol, cymdeithas y chwiorydd, a hyd yn oed hanes y garddwyr yn yr ardd tu cefn i'r festri. Byddai lluniau yn cyfoethogi'r hanes, wrth gwrs. Gyda diolch i'r un sydd wedi cysylltu â mi hyd yn hyn, a diolch ymlaen llaw i'r gweddill ohonoch sy'n bwriadu cysylltu!

Cofebau Edge Lane, Lerpwl a'r Benarth.

Roedd yr erthygl a ymddangosodd rai misoedd yn ôl ynglŷn â chofen capel Edge Lane, Lerpwl, wedi ei ail-gyhoeddi yn Yr Angor, papur bro glannau Mersi. Daeth ymateb i'r erthygl honno yn rhifyn Gorffennaf o'r papur, ac o'r diwedd, cyrhaeddodd copi o'r erthygl honno yn ôl i'm dwylo.

Ann Roberts, Childwall, fu'n holi am gofeb Edge Lane, ac yn

cofio fod yna gofeb hefyd i'r bechgyn o Lerpwl a gollodd eu bywydau yn yr Ail Ryfel Byd. Gwyddai hefyd am fodolaeth cofeb yng Nghartref Bontnewydd, sef yr un a drosglwyddwyd yno o'r Benarth, Llanfairfechan.

Henaduriaeth Lerpwl fu'n gyfrifol am y gofeb, ac fe'i gosodwyd yn y Benarth oherwydd i'r cartref hwnnw gael nawdd gan Gymry Presbyteriaidd Glannau Mersi. Yr oedd partneriaeth rhwng Cartref Bontnewydd a Chartref y Benarth, a phan ddaeth yn amser cau'r Benarth, trosglwyddwyd y gofeb i'r Bontnewydd.

Diolch hefyd i Robert Vale o Lanrhaeadr, Dinbych, am gysylltu gyda gwybodaeth am y gofeb a arferai fod yn Llanfairfechan. Roedd yntau wedi holi un o flaenoriaid Capel Horeb, Llanfairfechan, ac wedi cael gwybod mai ym Montnewydd y mae'r gofeb yn cael ei chadw'n ddiogel. Ychwanegodd fod dau blac wedi eu gosod y naill ochr i fynedfa'r Benarth yn nodi hanes yr adeilad.

Milwr Ifanc o Gwm y Glo

Anfonwyd y wybodaeth a'r llun gan Angharad Rhys o Gaernarfon, a fu ar daith yn Ffrainc yn ddiweddar. Wrth deithio drwy ardal Bayeux, digwyddodd droi i mewn i un o'r



Bedd Guardsman Meirion Evans o Gwm y Glo.

mynwentydd rhyfel yno, a darganfod y bedd a ddangosir yn y llun. Y cyfan sydd ar y garreg fedd yw 'M. Evans, Welsh Guards; 11th August 1944 Age 19.' Ond mewn cyfrol yn y fynwent cafwyd y wybodaeth ychwanegol mai'r milwr ifanc a fu farw ar faes y gâd oedd Meirion Evans, mab Harry a Ceridwen Evans, Cwm y Glo. Oes rhywun o'r darllenwyr â gwybodaeth am y teulu neu â chysylltiadau?

Yr Anturiaethwr o'r Waunfawr

Yn dilyn y cais fis diwethaf am wybodaeth ynglŷn â John Evans, anfonwyd bywgraffiad byr ohono gan W. Arvon Roberts, Pwllheli. Eglurodd fel y mae nifer helaeth o erthyglau a llyfrau wedi eu hysgrifennu amdano, ac am ei anturiaeth yn mapio rhannau helaeth o'r America. Ceir erthyglau arno hefyd yn yr *American Historical Review*. Mae manylion amdano i'w cael hefyd yn y *Bywgraffiadur Cymreig*, a cheir arddangosfa yn Bryn Pistyll, Waunfawr dan nawdd Antur Waunfawr.

Pwy oedd Glasgoed, Winnipeg? Ymddangosodd yr englyn hwn yng nghylchgrawn eglwysig *Perl y Plant*, fis Medi 1916.

Ymson ar Ryfel

Rhyfel anwar fe luni – alana
A'th elynol asbri,
Afonydd o waed fyni
A thyst o warth oes wyt ti.

Tybed a oes cysylltiad rhyngddo â'r Glasgoed, Llanddeiniolen?

Ffynnon Parc Clawdd Llwyd

Ymddangosodd y penillion hyn gyntaf yn yr *Eco* ym mis Mehefin 1978, dros chwarter canrif yn ôl. Mae'n anodd credu fod yr *Eco* dros ei ddeg ar hugain oed bellach. William Humphreys, Clawdd Llwyd oedd yr awdur, sef taid Mrs J. Hughes, Hafan Elan, Llanrug (gynt o Oerddwr, Tai Minffrwd, Tan y Coed).

Eiliaf gân i'r ffynnon gwyd
Ym Mharc Clawdd Llwyd i'm
llonni;

Yn ei gwely glân o frwyn
Mor lanwedd â mwyn lili;
Gwedd ei hwyneb sydd yn ddrych
I'r nefoedd edrych arni.


Mynnodd dyn roi iddi do,
Cul amdo celf o'i chwmpas,
Llunio rhodfa lân a thlws
At riniog drws ei phalas;
Ni fu erioed forwyniog fach
Mewn glanach wely gwyrddlas.

Hi rydd yn rhad i bawb eu rhan
Ar gryf a gwan mae'n gweini;
A chyn cychwyn ar ei rhawd
Pob tlawd ddiwellir ganddi;
Nid rhyfeddol atsain bloedd
Y miloedd sy'n ei moli.

Llawn o hyd – nid fel y môr
A'i stôr yn drai ar droeon;
Oer drwy'r haf er gwres di-ai;
Yr haul ar ei hymylon;
Ond ni lwydda rhewynt du
I fferru dŵr y ffynnon.

Tybed beth yw hanes y ffynnon
erbyn heddiw?

Cofiwch anfon unrhyw
wybodaeth neu ymholiad ar
unrhyw agwedd o hanes lleol
bro'r *Eco* i Dafydd Whiteside
Thomas, Bron y Nant, Llanrug,
Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)



Ysgol Dinorwig tua 1909.

YSGOL BRYNREFAIL

Mabolgampau'r Ysgol



Ymddengys fel hydoedd, ond ychydig cyn cau am wyliau'r haf cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol. Yn unol â'r arfer roedd Eilian, Elidir, Gwryfai ac Eryri wrthi fel lladd nadroedd a bu i bawb fwynhau diwrnod braf o

gystadlu. A phwy a orfu? Wel, y buddugwyr eleni oedd Eryri, ac isod fe welir eu capteiniaid, Rebecca Snowden a Siôn Emyr, yn dal y tlws. Pwy tybed gaiff yr anrhydedd yn 2007?

Ymweliad Blwyddyn 13 ag Adran Gemeg Prifysgol Bangor



Ddydd Llun, 18 Medi, cafodd y myfyrwyr hynny a astudiai Gemeg ym Mlwyddyn 13 gyfle i fynychu cwrs undydd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Cafodd y criw nifer o brofiadau gwahanol yn ystod y diwrnod fel rhan o'r gweithdy

'Cyfrinachau Cemeg', o wneud gwaith ymarferol yn y labordai i gael darlith gan Dr Anna Croft a chael cyfle i weld peth o'r offer cemegol sydd ar gael yn y Brifysgol. Yn y llun gwelir rhai o'r disgyblion a fynychodd y cwrs.

Hoci Dan 16



Llongyfarchiadau gwresog i Marged Rhys o Flwyddyn 11 a Heledd Tomos o Flwyddyn 10

ar gael eu dewis i dîm hoci Arfon dan 16.



Blwyddyn 7

Wel, mae'n dymor yr hydref cyn i neb droi ac ar ôl ffarwelio â chriw o flynyddoedd 11 a 13, dyma gylfe i ni yma yn Ysgol Brynrefail groesawu criw newydd atom. A phwy'n well i sôn am eu hargraffiadau cyntaf na'r disgyblion eu hunain?

* * *

Rydw i'n hoff iawn o Ysgol Brynrefail oherwydd rydym yn cael bwyd blasus yno! Fy hoff bwnc ar hyn o bryd yw Addysg Gorfforol am ein bod yn cael gwneud cymaint o wahanol fathau o chwaraeon. Yr unig beth drwg yw fod yr adeilad mor fawr, rydw i'n mynd ar goll weithiau!

Hannah Latham

Mae Ysgol Brynrefail yn grêt achos rydym yn cael mwy o amser egwyl a chinio. Rydw i'n hoffi'r gwersi Cymraeg, Maths ac Addysg Gorfforol yn bennaf.

Tomos Arfon Jones

Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd yn barod ac yn hoffi Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Kirsty Williams

Rwy'n dechrau dod i arfer efo'r drefn rwan ac yn mwynhau cael mynd ar y bws bob dydd. Rwyf yn hoffi'r cyfle i ddysgu pynciau newydd fel ffrangeg.

Ilid A. Jones

Mae'r ysgol yn llawer mwy na fy ysgol gynradd. Ro'n i yn nerfus i ddechrau ond mae'r gwersi'n ddiddorol ac rwyf yn hoffi mynd ar y bws mawr melyn i'r ysgol a chael cyfle i wneud ffrindiau newydd.

Ceri Roberts

Mae digon o ddewis yn Ysgol Brynrefail - yn y ffructur, yn y gersi, ac amser cinio rydych yn gallu gwneud llawer o wahanol weithgareddau.

Dwynwen Maxwell

Ensemble Cymru

Gweinyddwr/wraig Celfyddydau (Bangor)
Rhan amser

£14,000 y flwyddyn pro rata


I gynorthwyo gyda threfnu a marchnata dros 100 o ddigwyddiadau cerddorol clasurol bob blwyddyn.

Byddai trwydded yrru lawn a bod yn berchennog car yn ddymunol. Sgiliau TG (MS Office) yn ddymunol.

Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

Ffurflenni cais oddi wrth Ensemble Cymru, Prifysgol Cymru, Bangor LL57 2DG neu staff@ensemblecymru.co.uk
Dyddiad cau: dydd Gwener, 10 Tachwedd

Prif Ddysgyblion Ysgol Brynrefail



Llongyfarchiadau gwresog i'r disgyblion isod ar gael eu hethol yn brif ddisgyblion ar yr ysgol. O'r chwith fe welir y ddirprwy brif eneth, Anest Eifion; y brif eneth, Kayleigh Jones; y prif fachgen Jason Williams a'i ddirprwy, Cai Dyfan. Mae'r

pedwar yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur o arwain y Chweched Dosbarth ac o gynrychioli'r ysgol yn gyhoeddus. Pob lwc i'r pedwar ohonynt gyda'u cyfrifoldebau newydd.

Cymdeithas Cyfeillion Noson Ddoe a Heddiw

Cynhelir cyngerdd arbennig yn neuadd Ysgol Brynrefail ar 24 Tachwedd. Bydd disgyblion a chyn-ddisgyblion ac eraill yn cyflwyno amrywiaeth o eitemau.

Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Cyfeillion yr ysgol. 'Mae cymaint o bobl ddawnus yn yr ardal yma, fe benderfynom ni wahodd pawb at ei gilydd er budd y disgyblion presennol a rhai y dyfodol,' meddai Ann Parry, Cadeirydd y Gymdeithas.

Mae'r perfformwyr ar y noson yn cynnwys corau lleol megis Côr Dyffryn Peris a Lleisiau Lliwedd, Hogia'r Wyddfa a sawl canwr a chantores, yn cynnwys Elin Mai, Mari Wyn ac Elfed Morris. Bydd cyfle hefyd i wrando ar Siân Gibson a'i brawd, Emyr, yn canu. Gydag eitemau gan Fand Pres a Band Jaz yr ysgol,

Dawnsio Gwerin, a sgets gan Hogia'r Wyddfa, mae'n sicr o fod yn noson i'w chofio.

Bwriad y noson yw dathlu talent yr ysgol a'r ardal a chodi arian tuag at welliannau yn yr ysgol. Mae'r Gymdeithas a'r ysgol eisoes wedi dechrau gwario arian ar welliannau i'r Neuadd. Erbyn hyn mae'r llawr wedi ei ail-wynebu a'r hen ddrysau 'consertina' yn y cefn wedi eu hail-osod gyda rhai pren. Bydd system sain newydd yn ei lle erbyn y cyngerdd arbennig a gobeithir gwneud mân newidiadau eraill hefyd.

Mae'r tocynnau ar werth am £8 i oedolion, £4 i blant a phensiynwyr yn Siop Llonis, Llanrug; Formag, Llanberis; Siop Treflyn, Bethel; EB's, Deiniolen; Caffi Cwm y Glo a Siop Na-Nog, Caernarfon. Dewch yn llw!

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR


* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

Gair o Groeso a Ffarwél

Bu i ni ffarwelio â dau o staff yr ysgol dros wyliâu'r haf, gyda Mr Dylan Huw Jones yn symud, nid ymhell, i fod yn bennaeth ar yr Adran Fwydeg yn Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon. Yr un modd bu'n rhaid i ni ffarwelio â Madame Sylvie Gartau, Pennaeth yr Adran Ffrangeg, wedi dros ddau ddegawd o wasanaeth i'r ysgol. Tra'n bod fel ysgol yn drist o golli dau athro mor allweddol, braf yw gallu croesawu dau aelod newydd i'r ysgol. I'r Adran Wyddoniaeth croesewir Miss Nia Edwards a'r Pennaeth Ffrangeg newydd yw Miss Melanie Guillemin. Croeso cynnes atom i Frynrefail.



Siân Gibson.



Emyr Gibson.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Ar Agor

9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi ffordio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK

Cefnogwch ein Hysbysebwy

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

ORIAU AGOR

6 a.m.–7.30 p.m.

(Llun–Sadwrn)

6 a.m.–6 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan y perchnogion newydd,

CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

Diolch i bobol Bethel am eu croeso a'u cefnogaeth yn ystod ein misoedd cyntaf.

Côr Meibion Dyffryn Peris

Bu'r flwyddyn 2006 hyd yn hyn yn gyfnod prysur ac amrywiol ei weithgareddau yn hanes y côr. Ymunodd nifer o aelodau newydd ac roedd hynny i'w groesawu yn fawr iawn. Diddanwyd ymwelwyr ar nifer o nosweithiau iau dros y gwanwyn a'r haf yng Ngwesty Fictoria a bu llawer o ymwelwyr yn ymweld â'r ystafell ymarfer ar nos Lun ac yn dangos gwerthfawrogiad a chael pleser o wrando ar y côr yn ymarfer, yn eu plith lond bws o'r Iseldiroedd ac ymwelwyr o Awstralia, Canada, Yr Almaen ac Israel a nifer helaeth o daleithiau'r Amerig.

Cafwyd y pleser eleni o gynnal dau gyngerdd yn Eglwys y Santes Fair, Betws y Coed, fel rhan o'u cyfres o gyngherddau nos Sul yn ystod tymor yr ymwelwyr. Cafodd y côr dderbyniad gwresog ar y ddau achlysur.

Ym mis Mai cafodd yr aelodau yr hyfrydwch o estyn croeso i Gôr Meibion arbennig iawn o'r Amerig i Lanberis - côr a oedd ar daith gyngerdd ym Mhrydain. Braint oedd cael rhannu llwyfan â'r Wabash College Glee Club yng nghanolfan Mynydd Gwefru.

Eleni eto cafod y côr gyfle i deithio dramor ar wahoddiad Pwyllgor Gefeillio Caernarfon a Landernau. Treuliwyd pedwar diwrnod yn Landernau, Llydaw, yn ystod mis Mehefin.

Noson bleserus arall pan gafodd y côr gyfle i gymryd rhan yn ddiweddar oedd noson lansio Cryno Ddisg un o'r aelodau, sef Elwyn Wilson Jones. Profodd yn noson arbennig ar lawer ystyr a dymunwn fel aelodau bob llwyddiant i werthiant y cryno

ddisg unigryw hon o Ganeuon Ysbrydol gan Elwyn.

Mae'r côr hefyd yn cyfrannu yn gyson o'u doniau i gymunedau Cymreig i godi arian yn lleol ac at elusennau. Ymwelodd y côr â nifer o ardaloedd cyfagos yn ystod y misoedd diwethaf a bydd cyngherddau yn ystod yr hydref mewn lleoliadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac yn eu plith wahoddiad i gymryd rhan yng Nghyngerdd Dathlu Ysgol Brynrefail Llanrug yn 50 oed.

Wedi cyfnod o wyliau yn ddiweddar daeth yr aelodau ynghyd y nos Lun cyntaf ym Medi i roi gwaith newydd ar y gweill cyn cael seibiant o dair wythnos arall, gan fod nifer helaeth o'r aelodau a'u harweinydd, Lowri Roberts Williams, sy'n cyfeillio i Gôr Meibion Dinas Bangor, yn ymuno â'u cyfeillion ym Mangor ar eu Taith Gyngerdd o fythefnos i'r Unol Daleithiau. Byddant yn ymweld â thaleithiau Illinois, Wisconsin ac Indiana, lle perfformir mewn dau gyngerdd, yng Ngŵyl Geltaidd Chicago ac yn yr Eglwys Fethodistaidd Unedig. Bydd y côr yn cynnal cyngerdd mawreddog yn Eglwys Sant Dunstan yn Madison cyn symud ymlaen i Fort Wayne, lle rhoddir nifer o ddatganiadau a chyngerdd yn Eglwys Plymouth.

Wedi dychwelyd bydd ymarfer cyntaf Côr Dyffryn Peris nos Lun, 2 Hydref, yng nghanolfan Mynydd Gwefru. Rwy'n siŵr fod 'na lawer tenor neu fas ym mro'r Eco y buasem yn falch petaech yn ymuno â ni ar y noson hon ar ddechrau ein cyfres newydd o ymarferion, pryd y byddwn yn paratoi ar gyfer amrywiol gyngherddau a'r Cyfarfod Carolau Blyneddol gyda Seindorf Arian Deiniolen, a gynhelir eleni ar 10 Rhagfyr.

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Ceir Benthg AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

Car Service

AVW

VOLVO MERCEDES SAAB

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Bistro

LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

cwmni'r frân wen

Bitsh!

addasid John Ogwen
o'r nofel gan Eirwyn

Rhian Blythe, Catrin Fychan,
Maldwyn John, Eiliv Jones,
Carmyn Jones, Mawrlyn,
Jonathan Refydd

Nesedd Dwyfor 10/11 Hydref 01758 704088	Theatr Gwynedd 12/13 Hydref 01248 351708	Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth 17 Hydref 01970 623232	Theatr Hallinell, Caerfyrddin 18 Hydref 01267 676655	Theatr Glan y Afon, Llanymddydd 20 Hydref 01653 656757	Theatr Ardudwy, Harlech 24/25 Hydref 01766 780667	Theatr John Ambrose, Plwllhau 26/27 Hydref 01824 703333
---	--	---	--	--	---	---

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

MERCHED Y WAWR. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch nos lau, 26 Hydref. Edrychwn ymlaen i groesawu Delyth Jones, Tan y Coed, i sôn am ei gwaith gyda 'Gwasanaeth Gwaed Cymru'.

YR YSGOL SUL. Wedi gwyliau'r haf mae'r Ysgol Sul wedi cychwyn cyfarfod yng nghapel y Waun am 10 o'r gloch ar fore Sul. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni. Dymuna'r aelodau a'r athrawon ddiolch i drefnwyr Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug, am gael ymuno â hwy ar eu trip blynyddol fis Gorffennaf diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU

Dymunwn longyfarch Karen a Marc, 3 Stad Bro Waun, ar enedigaeth eu mab bychan, Benjamin, brawd bach a ffrind i Emma ac ŵyr i Dafydd Parry, Bro Waun.

Mab bychan, Gruffudd Llwyd, a anwyd i Mererid ac Erddin, Is-Eilian hefyd. Dymuniadau da a llongyfarchiadau i chwithau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Rosemary Bracegirdle a Mr George Jones, Tref Eilian, sydd yn yr ysbty ym Mangor.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbty i Guto Llewelyn, Stad Tŷ Hen. Dymunwn adferiad iechyd i ti a phob hwy ar dy gyfnod yn y coleg. Mae Mr John Derlwyn Lewis, Stad Bryn Golau, wedi treulio cyfnodau yn yr ysbty yn ystod y misoedd diwethaf. Anfonwn ein cofion cynnes ato.

Yr un yw'n cofion cynnes at amryw o drigolion y pentref sydd yn gaeth i'w cartref, ac sydd mewn cartrefi preswyl.

YSGOL WAUNFAWR. Dymunwn yn dda i'n cyn-ddisgyblion yn Ysgolion Brynrefail a Syr Hugh Owen. Mae'r disgyblion bach newydd wedi

ymgartrefu'n hapus yma yn y Dosbarth Meithrin gyda Mrs Sioned Parry. Croeso iddynt i'n plith ac hefyd i Claire, a fydd yn treulio dwy fynedd yn nosbarth Mrs Gwenda Griffith fel rhan o Gynllun Hyfforddiant Gwynedd. Croesawn hefyd Mrs Ann Ifans fel athrawes anghenion arbennig. Hoffem ddiolch yn fawr i Mrs Sulwen Edwards am ei gwaith dros y ddwy flynedd ar bymtheg ddiwethaf, a dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

Yn ystod gwyliau'r haf cafodd yr ysgol gegin newydd sbon, mae Anti Margaret ac Anti Syl wedi eu plesio'n arw. Bu Mrs Dafydd a Miss Roberts hefyd yn brysur yn cyfnewid doabarthiadau. Bydd dosbarthiadau Adran y Babanod gyda'i gilydd o hyn ymlaen yn y rhan newydd o'r ysgol, tra bod dosbarthiadau'r Adran lau yn yr hen ran o'r ysgol. Adeiladwyd partiwn hefyd er mwyn creu ystafell gyfrifiaduron. Mae'r ystafell yn werth ei gweld a'r plant wedi dotio gyda'r cyfrifiaduron. Bydd cyfle i'r rhieni gael gweld yr ystafell gan y byddwn yn trefnu noson agored cyn hanner tymor.

Bydd 30 o blant bl.5 a 6 ynghyd â Mrs Dafydd a Mr Gareth Williams yn treulio tridiau yng ngwersyll Glanllyn ddechrau mis Hydref. Bydd yr ysgol ar gau oherwydd hyfforddiant athrawon ddydd lau a dydd Gwener, Hydref 4 a 5.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Llywodraethwyr Hydref 12 am 7.00 o'r gloch;
- Trip addysgol blwyddyn 5 a 6 i Gonwy a'r Wybrnant ar 18 Hydref.
- Noson Gymdeithasol yn Nhafarn y Snowdonia Parc ar 26 Hydref;
- Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Croes-y-Waun ar 27 Hydref.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR. Ailgydiwyd yn y gweithgareddau nos Fawrth, 12 Medi, yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Nan Humphreys, a chychwynnwyd gyda chân y mudiad. Braf oedd croesawu cynifer o wynebau newydd.

Y wraig wâdd oedd cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, sef Bethan Hughes, Rhuthun (Llanberis gynt) cyfnither i Myrddin, Hogia'r Wyddfa a Llyfngellydd wrth ei gwaith bob dydd.

Wedi diwrnod o waith ei hoff ddiddordeb yw Gwaith Llaw ac mae wedi ymddiddori yn hynny ers yn ifanc iawn ond wedi gwir afael ynddi rhyw bum mlynedd yn ôl. Dangoswyd enghreifftiau cywain o gwiltio llaw a chyda pheiriant, samleri a chroesbwythau unigryw o gerddi a digwyddiadau hanesyddol. Cafwyd cyfle i weld cwiltiau bendigedig, bagiau a chlustogau a chafwyd sgwrs hynod o fywiog a diddorol ganddi. Cafwyd noson o ryfeddu at waith mor greffus.

'Nid o'i ôl y gedy'r gwaith

Heb ei orffen yn berffaith.'

Diolchwyd i Bethan gan Nan, y Llywydd, am wledd i'r llygad a'r glust. Diolchodd i ferched Penisarwaun am baratoi'r banded. Enillwyd y raffl gan Heulwen, Penisarwaun.

Llongyfarchwyd Linda a Hefin ar ddod yn nain a thaid i Buddug, ac i Jean a Gwynfor ar ddod yn nain a thaid i Jac.

Llongyfarchiadau hefyd i Eileen ar achlysur pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau brwd i Eirianwen a Dafydd ar ddod yn nain a thaid am y pedwerydd tro ac i Mrs Whiteside Thomas ar ddod yn hen-nain am y pedwerydd tro.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 10 Hydref, yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Y wraig wâdd fydd Eirlys Williams, Bethel, gyda rhywbeth at 'y trwyn a'r geg', sef coginio.

SEFYDLIAD COFFA

Enillwyr y Clwb Cant.

Gorffennaf. £20: Wavell Roberts, London House; £7: Mrs E. Jones, Llys Alaw; £5: Mrs M. Jones, 15 Afon Rhos. Awst. £20: Mrs G. Thomas, Wenallt; £7: Mrs M. Roberts, Tai Minfordd; £5: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan.

Medi. £20: Mrs E. Roberts, 3 Bryn Moelyn; £7: Mrs M. Williams, 35 Nant y Glyn; £5: Mrs M. Parry, Bryn Heli.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lisa Ann Jones, 4 Rhes Arfon, sydd wedi ennill ysgoloriaeth ychwanegol at ei chwrws presennol, sef Cwrs Graddedig Ph.D. mewn Mathemateg yn Rhydychen. Da iawn ti, Lisa, a phob hwy i ti hefyd yn rhedeg y 'Great North Run' ym mis Hydref, er budd Marie Curie.

DIOLCHIADAU. Dymuna Deian a Claire o Aldershot, mab Selwyn a Betty Roberts, Meifod, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Freya.

BABIS NEWYDD

Llongyfarchiadau mawr i Gwion a Meinir Llwyd, Hafan, Ffordd Glanmoelyn, ar enedigaeth Berian Hopcyn, brawd bach newydd i Tomos ac ŵyr i Gwyndaf a Mair Hughes. Dymuniadau gorau iddo.

Yn ddiweddar ganwyd Buddug, merch i Bryn a Gwenan Jones, Tan y Coed, chwaer fach i Nel ac wyres newydd i Hefin a Linda Jones, Pant Mwyn.

Llongyfarchiadau mawr i chwithau a phob dymuniad da.

PEN-BLWYDD

ARBENNIG

Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus iawn i Eileen Jones, 60 Glanffynnon. Deallwn ei bod wedi dathlu gyda'r teulu a'i ffrindiau. Croeso i'r clwb!

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Jennie Pritchard, Cae Newydd, yn dilyn marwolaeth Mr Wil Oliver Pritchard, ei gŵr annwyl, tad Elizabeth a thaid Stephen a'i deulu. Cofiwch hefyd am Sheila, Donald, Jennie a Sybil, ei frawd a'i chwiorydd.

Sion o Ewrop



Sion Rees Williams, Y Gors, Pontrhyallt yn cael ei longyfarch gan yr Archdderwydd Selwyn Iolen ar achlysur ei urddo fel Ieithydd trwy arholiad (Gwisg Las) yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch eleni. Cafodd 79% yn yr arholiad terfynol. Fe'i hadnabyddir yng Ngorsedd fel Sion o Ewrop.

Ar ôl cyfnod pleserus a llwyddiannus fel unig diwtor iaith yn y Gymraeg, Ffrangeg a'r Saesneg i Goleg Harlech Cymdeithas y Gweithwyr Gogledd Cymru (WEA) a golygydd/cyfieithydd tairieithog, bydd Sion yn cychwyn ar yrfa newydd fel Darlithydd yn y tair iaith hyn ym Mhrifysgol Babyddol Lubin, Gwlad Pwyl yn yr hydref. Bu hefyd yn rhan o'r tîm a fu'n gosod, golygu a phrawfddarlenn yr Eco 2003-06.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliament.uk**



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PLYGU'R ECO. Diolch i'r ychydig ffyddlon a ddaeth ynghyd i blygu'r Eco. Yr oedd yr ieuengaf yn 8 oed ar hynaf yn 91 oed. Diolch hefyd i'r rhai a ddaeth o Ddeiniolen a Llanrug i roi cymorth inni. Diolch o galon i Weinidog a Swyddogion Eglwys Cefn y Waun am gael menthyg y Festri i blygu'r Eco. Diolch i bawb a fu o gymorth mewn unrhyw fodd.

LLONGYFARCHIADAU. Yn ystod y mis bu i Mrs Nellie Williams, gynt o 2 Bro Elidir, ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr i chwi a phob bendith ag iechyd i'r blynyddoedd a ddêl. Hefyd yn niwedd mis Awst bu i Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, ddathlu ei ben-blwydd yn 91 oed. Ni wnaeth ei oed ddim gwahaniaeth iddo, fe ddaeth unwaith eto i blygu'r Eco. Llongyfarchiadau mawr i chwithau a diolch o galon am eich parodwydd ers blynyddoedd i ddod i blygu'r Eco. Gobeithio y bydd ichwi eich dau fwynhau blynyddoedd o iechyd eto.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl haeloni iddi ar ei diwrnod arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau Clwb Orwig yng Nghanolfan Blue Peris ar Fedi 14 ac estynnwyd croeso yn ôl i bawb wedi seibiant yr haf gan Ray Bower, yr Ysgrifennydd.

Anfonwyd dymuniadau da i Margaret Faulkner ar ôl y llawdriniaeth i'w llaw.

Cyflwynwyd anrhegion pen-blwydd i Mr Andrew Griffith a Mr Selwyn Williams. Bu'r ddau'n dathlu eu pen-blwyddi yn ystod mis

Awst a dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Joan Glass yn ddiweddarach yn mis Medi.

Gwahoddwyd aelodau i dorri gwair a phlannu blodau o gwmpas y Gofeb. Hefyd atgoffwyd yr aelodau i ddod â'r arian a gasglwyd ganddynt ar gyfer Ysgol Pendalar i law.

Gwirfoddolodd Mrs Anne Williams i gymryd rhan yn y ras noddedig a drefnir gan Age Concern ar gyfer Teidiau a Neiniau ar Fedi 24. Atgoffwyd yr aelodau o'r gwasanaeth i brofi plancedi trydan gan Age Concern ar Hydref 11.

Torrodd yr aelodau eu henwau ar ddeiseb yn gwrthwynebu'r bwriad i bensiynwyr dderbyn eu budd-daliadau o'r banc yn hytrach nag o'r Swyddfa Bost.

Diolch i Margaret Faulkner ac Ann Lo am y te, ac i Martin a Glenys, perchnogion y Veg Van, am eu rhoddion o ffrwythau a llysiau. Mwynhaodd pawb y te, a gêm o bingo. Enillwyd y gwobrau gan Anne Williams, Terry Taylor, Elizabeth Jones ac Alice Griffith.

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis cang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Heulwen Morris, Cefn Coch, ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am eu caredigrwydd ac hefyd i staff Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd am eu gofal arbennig.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl haelioni iddi ar ei diwrnod arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Ciss a Jennie Gorlan ddiolch yn ddiffuant i'r plant, teulu, ffrindiau a chyfeillion am y cardiau, rhoddion a blodau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 80 oed. Diolch o galon hefyd i Ron a Divinia am drefnu y parti.

DYMUNA Jill Parry ddiolch o galon i staff, rhieni a phlant Ysgol Gwaun Gynfi am y blodau hardd, yr anrhegion a'r dymuniadau gorau ar achlysur ei hymddeoliad fel athrawes Feithrin yn yr ysgol.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.

Y gŵr gwadd yng nghyfarfod Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist ym mis Medi oedd y Canon

Gwyndaf Hughes o Gaernarfon. Cawsom hanes ei yrfa fel Caplan yn y Llynges, a'i brofiadau amrywiol, o lawenydd ac o dristwch, wrth hwylio yn y dywain pell, ac yna yn ôl i Gymru fel Offeiriad Plwyf ar Ynys Môn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 2 Hydref, ym mwyty Groeslon Tŷ Mawr, pryd y cawn Swper y Cynhaeaf. Y gŵr gwadd fydd y Parchedig Robert Townsend. Croeso cynnes i bawb.

Bydd Gwasanaeth y Diolchgarwch eleni ar Sul, 15 Hydref, am 5.30 yr hwyr. Bydd Gosber a phregeth gyda'r Canon Idris Thomas o Drefor. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA Tony a Lyndsey ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd eu mab, Rhun Iolen Gruffudd Pleming ar ei enedigaeth ar 21 Gorffennaf.



Rhun Iolen a Cian Henry Gruffudd Pleming, ei frarwd mawr.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Toriad Gwawr ar ben Wyddfa

Efo'r holl sôn y dyddiau yma am gau'r caffï ar ben y Wyddfa a'i dynnu i lawr, dwi'n meddwl fod cysylltiad bach â'm stori i.

Roedd yn nos Sul hynod, hynod o braf ym mis Medi 1948, ac yn hollol fympwyol penderfynais fy mod am fynd i ben Wyddfa i weld yr haul yn codi. Fel y rhelyw o blant Llanber yn y cyfnod hwnnw roedd dringo mynyddoedd yn beth roeddem yn gwneud llawer ohono, yn enwedig yn y gwyliau. Roeddwn wedi bod ar ben Yr Wyddfa yn ystod y dydd lawer gwaith, ond erioed yn y nos.

Cyn fy mod wedi troi roedd criw o blant Llainwen eisiau dod efo fi – rhyw chwech/saith ohonynt, Vera a Jenny, fy chwiriorydd a'u ffrindiau. Pedair ar bymtheg oeddwn i ac un ar ddeg oedd dwy o'r genod oedd eisiau dod efo fi... a dyna ddangos sut mae'r oes wedi newid achos does gennyf ddim cof fod neb wedi trio ein rhwystro, heblaw am ambell rybudd fel: 'Byddwch yn ofalus a gwrandwch ar Mair!'

Roedd yn wyth o'r gloch arnom yn cychwyn, ac efo'r coesau a'r ysgyfaint oedd gennym y pryd hynny roedd y dringo yn rhwydd.

Erbyn i ni gyrraedd y copa roedd y nos wedi cau amdanom a'r caffï yn y tywyllwch. Mentrais daflu ychydig o gerrig mân yn ysgafn at ffenast y llofft. Mr a Mrs

R.J.Williams 'number two' Llainwen oedd rheolwyr y caffï. Daeth Mrs Williams i'r ffenast a gweiddi,

'Pwy sydd yna?'

'Mair Davies 'nymber ffor-tin' Mrs Williams! Gawn ni ddod i mewn?'

Dyna i chi ddigywilydd te! Daeth Mrs.Williams i lawr yn ei choban ac agor y drws i ni.

'Does gen i ddim lle i chi gysgu,' meddai.

'Gysgwn ni ar lawr,' medda finna.

Aeth yn ôl i'w gwely. Wn i ddim faint gysgodd hi chwaith, y graduras.

Gwnaethom ninnau ein hunain mor gyfforddus ac y gallom. I beidio clywed y synau ofnus oedd yn dod o'r tu allan i'r caffï roeddem yn trio cofio gemau geiriol, posau a jocs. Roedd un o'r genod yn erfyn arnaf i beidio mynd i gysgu am fod arni ofn, ond mynd i gysgu wnaethom i gyd ymhen amser.

Deffrais a dychryn o weld bod pobman yn olau. Dyna beth oedd siom. Roeddem wedi cysgu ac wedi colli'r haul yn codi. Deffrodd pawb ac wrth wneud fe ddeffrais Mrs. Williams. Daeth i lawr y grisiau a gweiddi,

'Brysiwch neu fe'i collwch.'

'Da ni'n hwyr. Da ni wedi ei golli!' medda fi.

'Nac ydych tad.' meddai.

'Mae'n goleuo cyn i'r haul ddod i'r golwg.'

aeron. Ac er bod yr afalau yn fy ngardd berllan yn niferus hefyd, maen nhw'n llai eu maint nag arfer, a gall hyn hefyd fod yn un o arwyddion y sychder. Bydd ein poblogaethau parhaol o adar yn gwleda ar y cyflenwad yma o ffrwythau ymhell i mewn i'r gaeaf.

Nid yw'n ymddangos bod adar wedi dioddef yn ormodol yn yr haf sych, er y ceir adroddiadau o gywion yn marw yn y nyth oherwydd y gwres. Ond, elwodd nifer o rywogaethau adar ar dymor paru heulog, gyda nifer yn sôn am wenoliaid yn magu ail nythaid. Mae'r adar yma'n casglu gyda'i gilydd yn llawn cyffro ar y gwifrau ym mis Medi, yn barod am y siwrne hir i dde Affrica.

Lliwiau'r hydref

Bydd y tywydd sych wedi achosi problemau i'r adar hynny, fel y mwyalchod, sy'n bwydo ar ein lawntiau am fwydod a chreaduriaid eraill y pridd, ond bydd glaw mis Awst wedi lleddfu eu trafferthion. Mae'r cyfnod poeth, sych, hir a ddilynwyd gan fis Awst cynnes a gwlyb hefyd wedi darparu amodau da i ffyngau'r glaswelltir, gyda mycolegwyr yn rhagweld cnydau da o fadarch y maes yr hydref hwn. Mae arbenigwyr coetiroedd hefyd yn disgwyl sbloet o liwiau'r hydref eleni o ganlyniad i'r cyfnod sych hir.

Ym mis Medi 2006 gwelwyd y llanwau uchaf ers nifer fawr o

Wyddwn i erioed mo hynny o'r blaen.

Dyma rhuthr allan ac fe welsom olygfa anhygoel. Roedd yn fore perffaith. Y cymylau oddi tanom yn wyn, drwchus fel cotwm gwlan a phennau'r mynyddoedd yn gwrthio trwyddynt yn las borffor. Cododd yr haul fel petai rhyw gawr yn rhywle yn ei wrthio fel pêl yn gyflym i'r awyr, ac wrth wneud yn newid lliw y cymylau yn rhithiol bron – yn binc, melyn ac oren, a'r cwbl yn digwydd mor gyflym.

Ymhen amser aethom yn ôl i'r caffï i ddiolch i Mrs.Williams cyn cychwyn am adra. Roeddem yn rhedeg a brasgamu i lawr y mynydd fel 'geifr ar drana'. Pan oeddem ochr isa' i Hebron roedd trên gynta'r dydd, y trên cario'r nwyddau, yn dod i'n cyfarfod.

'Rargian fawr o ble ar y ddaear da chi'n dod blant?' meddai'r dreifar.

'O ben Wyddfa,' medden ninnau gan redeg heibio iddynt.

Fe welais olygfa anhygoel y bore hwnnw nas gwelais ei gwell yn unman arall yn y byd hyd yma. Teimlwn ar y pryd, a hyd y dydd heddiw, drueni nas ganwyd fi yn arlunydd neu'n fardd.

MAIR ROBERTS. (LLANWINDA)

Diolch yn fawr iawn i Mrs Mair Roberts am rannu ei hatgofion hynod ddifyr efo ni ac am ddangos gymaint mae'r oes wedi newid! Cofiwch mae croeso cynnes ichi yrru eich straeon chi aton ni - llinoshaf@hotmail.com. Gol.

flynyddoedd, ac, wrth lwc, arweiniodd y tywydd llonydd at beidio ag erydu'r glannau. Mae'r cyfnod yn dilyn y llanw mawr yn amser da i fynd i chwila ar hyd y traeth, gyda chyllyll môr, gwichiaid moch a chreaduriaid eraill yn frith ar ymyl y don. Ond gwymon, sydd bellach yn fwyd i sbonc y glennydd a phryfed eraill, yw rhan fwyaf y broc môr, a bydd yn darparu maetholion gyda hyn i'r planhigion unflwydd ar ochr y twyni, fel yr hegydd arfor.

Allwch chi helpu?

Un o'r pethau sy'n cael ei golchi i fyny'n aml ar ein traethau yw llwyth wyau – sy'n cael ei alw'n bwrs y fôr-forwyn – y cathod môr. Mae arbenigwyr yn poeni am y dirywiad ym mhoblogaethau'r rhywogaethau yma, ac mae'r Ymddiriedolaeth Siarcod yn gofyn i bobl adrodd am unrhyw chwilerod y maent yn dod ar eu traws. Cysylltwch â (www.sharktrust.org/eggcase/index.html).

Tudalen Newyddiaduraeth Rygarug

Croeso i dudalen newydd Rygarug! Mae Rygarug yn darparu hyfforddiant mewn amrywiaeth o sgiliau yn ymwneud â'r Celfyddydau Perfformio, mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys: **CERDDORIAETH; AMLGYFRWNG; DRAMA; DAWNSIO a DAWNSIO STEPIO!**

Eleni, cynigir ddosbarth newydd sbon i aelodau Rygarug sef **NEWYDDIADURAETH!** Mae'r dosbarth i flynyddoedd 4, 5, 6, a 7 fyny i flwyddyn 12! Bydd y gwersi yma yn cael eu rhedeg gan Drefnydd Rygarug, Siân Jones, sydd newydd raddio o'r Brifysgol ym Mangor gyda gradd mewn Newyddiaduraeth

Wedi darllen am fygythiad a gafodd yr *Eco* dros yr haf cysylltwyd gyda'r Golygydd i drafod y posibilrwydd i ddisgyblion Rygarug gynhyrchu tudalen y mis i *Eco'r Wyddfa*. Mi fuasai hyn yn ysgogi plant yr ardal nid yn unig i ddarllen yr *Eco*, ond i ymarfer eu sgiliau creadigol drwy greu erthyglau, adroddiadau, a chyfrannu i waith ymchwil.

Bydd tudalen Rygarug yn cynnwys erthyglau am y Fro, pynciau llosg pobl ifanc yr ardal, Newyddion am weithgareddau Rygarug, barddoniaeth gan y disgyblion, adroddiadau llyfrau, ffilmiau a gemau! Bydd y dudalen yma yn mynd i fod at ddant pawb, ac rwyf i, yn sicr, yn edrych ymlaen i'w chynhyrchu!

Bydd Rygarug yn llwyfannu sioe lwyfan, gyda'r teitl hynod amserol – 'Gwyrdd' yn Theatr Gwynedd mis Ebrill nesaf, ac fe fydd newyddion am y sioe yn cael ei roi yn *Eco'r Wyddfa* pob mis – felly cadwch lygad ar y dudalen hon!

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno a Rygarug!!

Am fwy o wybodaeth ynghylch Rygarug, cysylltwch â'r Trefnydd:

Siân Eleri Jones, ar:

(01286) 675766

neu e-bostiwrch:

post@rygarug.org,

neu ymwelwch â'n

gwefan: www.rygarug.org.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Nodiadau Natur – Yr Hydref

Yn ôl y Swyddfa Dywydd, roedd haf 2006 yn gynhesach ac yn fwy heulog nag arfer yng Nghymru, ac, er gwaethaf Awst gwlyb, dim ond 66% o law arferol yr haf a gawsom – y lefel isaf mewn unrhyw ardal ym Mhrydain. Fodd bynnag, nodwedd fwyaf trawiadol yr haf oedd y sychder, a greodd problemau a chyfleodd i'n cymunedau naturiol.

Mae'n ymddangos mai rhai o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf oedd ein rhostiroedd arfordirol, a oedd hefyd yn gorfod dioddef bod yn agored i halen a gwynt. Dechreuodd ein coetiroedd hefyd ddangos effeithiau'r sychder ym mis Gorffennaf, gyda choed fel y fedwen a'r gollen yn colli eu dail yn sydyn. Bydd rhai o'r coed yma wedi goroesi, ond mae'n sicr y bydd y rhai ar bridd tcnau wedi marw.

Blwyddyn dda i ffrwythau

Nid yw'n ymddangos bod y sychder wedi cael effaith ddifrifol ar ein coed a'n llwyni ffrwythau. Daeth dechrau heulog Mai ag amodau ardderchog ar gyfer peillio a ffurfio ffrwythau, gyda llawer o rywogaethau, fel y ddraenen wen, y ddraenen ddu a'r gerddinen, yn drymlwythog o

GWENYN PRYSUR



Ansen
Pwintio, Papura, Teuluo,
Taclusa's ardd neu
Decio?



Gwasanaeth Dibynnol a Phrisiau Rhesymol
Ffoniwch
Mark Bee ar

01286 672791

neu 07879452477

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Melissa a David, 8 Caradog Place, ddiolch o galon i bawb a fu y tu hwnt o garedig yn rhoi arian, cardiau ac anrhegion hyfryd i Cian Huw ar ei enedigaeth. Diolch yn fawr iawn. DYMUNA John a Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuantaf i'r teulu a'r llu cyfeillion am yr holl gyfarchion a'r anrhegion a dderbyniasant ar ddathlu eu Priodas Aur ar Awst 25. Diolch am y caredigrwydd a'r dymuniadau da.

DIOLCH. Dymuna Beryl, 8 Maes Derlwyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

DYMUNA Mary Thomas, Olgra Terrace, ddiolch i'r teulu a chymdogion am y llu cardiau, blodau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80oed. Diolch arbennig i'r plant am y parti gwyh yn y Padarn Lake.

DYMUNA Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon, Tŷ Du Road, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garidau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ym mis Mehefin. Diolch yn fawr i'r staff pan yn aros yn Cerrig yr Afon, y Felinheli.



LLONGYFARCHIADAU I Iwan Jones a Bethan Roberts ar ddydd eu priodas ar 5 Awst yn Seiont Manor, Llanrug.

DYMUNA Iwan a Bethan ddiolch

yn fawr iawn i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas. CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ar 7 Medi yn Angorfa a chymerwyd y rhan dechreuol gan Moreen. Cyflwynodd Anne y gŵr gwadd, sef Mr Hywel Roberts, Caernarfon, a chafwyd sgwrs ganddo am hanes ei flynyddoedd cynnar ym Mhenmachno a hanes teulu Glasgwm Hall a'i gysylltiadau teuluol â hwy. Wrth fynd i chwilio a gwneud coeden deuluol diddorol oedd clywed iddo ddod o hyd i deulu estynedig yn America.

Diolchwyd iddo ac i Heulwen ac Evelyn am y baned a'r raffl gan Gwynfor Williams. Yr enillydd oedd Heulwen Lewis. Croesawyd lola Sellers atom fel aelod newydd a hefyd cydymdeimlwyd â Sybil Evans a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei brawd yn Llanrug.

DYMUNA Richard Arfon Lewis, 4 Y Bwthyn, Deiniolen, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, arian a galwadau ffon tra bu yn Ysbyty Withenshaw, Manceinion yn cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb. YSGOL DOLBADARN

DECHRAU'R TYMOR. Ar ddechrau'r tymor rydym yn croesawu pawb yn ôl i'r ysgol. Mae'r plant i gyd wedi setlo'n dda. Rydym hefyd yn croesawu aelodau newydd o staff - mae Mrs Glenda Hughes yn cynorthwyo drwy'r ysgol a Kelly Jones ac Emma Wyn Jones yn cynorthwyo yn yr Adran Fabanod. GWASANAETH BOREOL. Daeth y Parchedig Robert Townsend atom i gynnal gwasanaeth boreol. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando a diolchwn iddo am ei wasanaeth.

GWERSYLL GLANLLYN. Treuliodd disgyblion o flwyddyn 5 a 6 dri diwrnod difyr iawn yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn. Cafwyd cyfle i fwynhau nifer o weithgareddau amrywiol.

YMWELIAD. Diolch i PC Neil Williams am ddod atom i sôn am ddiogelwch, gan sgwrsio am wahanol agweddau o waith yr heddlu a'r gwasanaethau brys eraill.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



Croeso mawr i Robert, Keith, Georgia a Jason i Ysgol Cwm y Glo.

YSGOL CWM Y GLO. Pedwar o blant bach sydd wedi cychwyn yn y Meithrin eleni. Maent wedi cartrefu'n dda a rhown groeso mawr i Robert a Keith Hall, Georgia Mapp a Jason Pratt-Amor i'r ysgol.

Mae etholiadau i'r Cyngor Ysgol wedi eu cynnal eto y tymor yma. Llongyfarchiadau i Ffion Wyn Jones a Lee Roberts (Blwyddyn 2), Lily Start ag Ollie Arkless (Blwyddyn 3 a 4), a Hannah Wilson a Conor Handy (Blwyddyn 5 a 6) am gael eu hethol.

Diolchwn i Mr Townsend am ddod atom unwaith yr wythnos i gynnal gwasanaeth eto y tymor yma. Mae'r plant yn mwynhau clywed ei neges ac yn edrych ymlaen i'w weld bob amser.

GWELLHAD. Bu Dylan, 22 Dôl AFon, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a dymunwn adferiad buan iddo.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Tracy a Martin, Fron Gader, yn eu profedigaeth lem o golli mam annwyl Tracy.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Glan Clwyd, dydd Gwener, 8 Medi, bu farw Mrs Bronwen James, 4 Bryn Crwn, yn 68 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dywaf â'i mab a merch, a'r teulu oll yn eu

profedigaeth.

UNDEB Y MAMAU. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Robert Townsend yn Eglwys Sant Gabriel, nos Lun, 4 Medi i ddechrau ein cyfarfodydd am y tymor newydd.

Cafwyd cyfarfod a lluniaeth yn yr ysgol gymuned. Trafodwyd materion oedd i law gan arweinydd y gangen, Doorthy Jones a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kathleen Jones ac anfonwyd ein cydymdeimlad ati.

Yn gofalu am y luniaeth oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Margaret Latham.

Diolchwyd i'r gwesteion gan Miss Meira Williams.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

DIOLCHGARWCH. Bydd y Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys ar 8 Hydref. Bydd Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn ddwyieithog am 9.15 gan ein Rheithor, Parch Robert Townsend Pregeth a Neges Diolchgarwch am 6.00 yr hwyr.


Nos Lun, 9 Hydref, bydd Noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned am 7.00 o'r gloch. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel. Dowch yn llu i gefnogi.

Lansio CD Newydd

Ar nos Sadwrn, 2 Medi, cynhaliwyd cyngerdd i ddathlu lansio CD newydd Elwyn, Hogia'r Wyddfa.

Roedd yr Oriel yn orlawn ar y noson a chasglwyd dros £600 at Ward Alaw.

Yn cymryd rhan yr oedd Côr Meibion Peris, Elwyn, Dafydd Bullock, Hogia'r Wyddfa, Annette Bryn Parri, Vernon (o'r ddeuawd Vernon a Gwynfor) ac Alun Williams (Mabon).



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Gŵyl Ffair Nant 2006

Bu'r tywydd yn garedig iawn eleni a chafwyd heulwen cynnes braf yn y Nant drwy'r dydd Sadwrn, Medi 16. Roedd digon o hwyl gyda pherfformwyr y syrcau yn diddori'r plant (a'r oedolion!) efo'u campau amrywiol; y sioe gŵn a'u perfformwyr amryddawn; Dafydd Cadwaladr a'i dîm yn diddanu'r dorf efo'u crefftwaith, Ray John a'i gerddoriaeth a Menter Fachwen yn paratoi digon o fwyd a diod i bawb!

Diolch yn fawr iawn i bawb a gynorthwyodd gyda'r holl waith trefnu cyn ac yn ystod yr wythnos ac i'r holl wirfoddolwyr a fu wrthi'n brysyr efo'u stondinau ar y cae.

Cafwyd ymateb da iawn i holl weithgareddau'r wythnos (bydd mwy o fanylion a lluniau yn y rhifyn nesaf) a bu cystadlu brwd iawn yn adran grefftau'r sioe. Dyma'r canlyniadau:

OEDOLION

COGINIO. Torth Wen: 1. Val Owens; 2. Cheryl Humphries. Teisen foron: 1. Ann Parry; 2. Alan Bee; 3. Beth Owen. Bara Brith: 1. Ann Cumberton; 2. Rhian Pritchard; 3. Glenys Owen. Teisan blât (unrhyw ffrwyth: 1. Ann Parry Jones; 2. Ceri Morris; 3. Buddug Wakeham. Teisen Siocled: 1. Beth Owen; 2. Evelyn Williams; 3. Eirian Roberts. Treiffl: 1. Eirian Roberts; 2. Cheryl Humphries; 3. Mair Griffiths. Taffi Triog: 1. Glenys Owen.

JAM. Pot jam unrhyw ffrwyth: 1. Gwyneth Roberts; 2. Eirian Roberts; 3. Eirian Roberts. Pot o Gaws Lemwn: 1. Maureen Lennon; 2. Marga Bee; 3. Eirian Roberts.

PERLYSIAU. Clwstwr o Berlysiâu: 1. Maureen Lennon; 2. Ann Cumberton.

FFOTOGRAFFIAETH. Llun a dynnwyd ar ben yr Wyddfa: 1. Buddug Wakeham; 2. Bedwyr Jones; 3. Buddug Wakeham. Ffotograff o Nant Peris yn yr eira: 1. Margaret Griffiths; 2. Phil Thomas; 3. Margaret Griffiths.

CELF. Darlun anifail anwes mewn pensil: 1. Maureen Lennon; 2. Dave Holmes; 3. Maureen Lennon. Arlunio neu beintio unrhyw gyfrwng dim mwy na 20" x 20": 1. Sarah Ridgeway; 2. Philip Thomas; 3. Sarah Ridgeway.

GWYDR LLIW. Unrhyw gyfrwng - defnydd papur neu wydr: 1. Philip Thomas; 2. Philip Thomas; 3. Shirley Davies.

ARDDANGOSFA FLODAU Arddangosfa flodau mewn tamaid o bren: 1. Helen Adams; 2. Shirely Davies; 3. Maureen Lennon. Trefniant GWYRDD: 1. Gwenda Roberts; 2. Beth Owen; 3. Shirley Davies.

GWAU. Dol neu anifail: 1. Marga Bee; 2. Janice Pritchard; 3. Janice Pritchard.

CROSIO. Unrhyw eitem i fabi: 1. Gwyneth Roberts; 2. Gwyneth Roberts; 3. Dorothy Jones.

CLYTWAITH a CHWILTIO Eitem o glytwaith - Cwilt: 1. Mary Roberts; 2. Beth Owen; 3. Gillian Parry. Clustog: 1. Gwyneth Roberts; 2. Mary Roberts. Cwilt

bychan i fabi neu blentyn: 1. Dorothy Jones; 2. Janice Pritchard; 3. Mary Roberts.

GWNIO. Tegan meddal: 1. Fiona Jones; 2. Maureen Lennon.

BRODIO. Cerdyn cyfarch yn dangos pwyth croes: 1. Dilys M. Roberts; 2. Dilys M. Roberts.

GWAITH COED. Unrhyw eitem o waith coed: 1. Dave Holmes; 2. Gwyn Thomas; 3. Dave Holmes.

PLANT

COGINIO Dan 8 oed. 6 cacen crispies siocled: 1. Kes Thomas; 2. Aron Jones; 3. Miriam Catrin.

8-12oed. Fflapjac: 1. Vicky Roberts; 2. Arian Preston; 3. Sioned Cumberton. Quiche: 1. Alice Cumberton; 2. Kate Pritchard; 3. Vickey Roberts.

12-16 oed. Cacennau Mafon: 1. Sara Parry; 2. Miriam Pritchard; 3. Manon Pritchard.

CREFFT. Dan 8 oed. Cynllun cerdyn Nadolig: 1. Miriam Catrin; 2. Eban Jones; 3. Liam Hughes. Dan 8 oed. Anifail wedi ei wneud allan o glai: 1. Kes Thomas; 2. Aron Jones; 3. Ellie Thomas.

8-12 oed. Unrhyw eitem wedi ei wneud allan o glai: 1. Daniel Roberts; 2. Arian Preston; 3. Vickey Roberts.

ARLUNIO. Dan 8 oed. Fy Ngardd: 1. Emily Hughes, Ellie Thomas; 2. Miriam Catrin, Kes Thomas; 3. Liam Hughes, Aron Jones.

8-12 oed. Dad neu Ewyrth un gweithio: 1. Daniel Roberts; 2. Kate Pritchard, Sioned Cumberton; 3. Kate Pritchard, Aron Jones, Mared Morris. Tirlun: 1. Manon Pritchard; 2. Gwynno Pritchard, 3. Alice Cumberton, Kate Pritchard.

GWNIO. Clustog wedi ei addurno: 1. Manon Pritchard; 2. Manon Pritchard. **FFOTOGRAFFIAETH:** Dan 8 oed. Anifail fferm: 1. Aron Jones; 2. Eban Jones; 3. Eban Jones.

8-12. Taid, Nain neu Anti: 1. Sioned Cumberton; 2. Kate Pritchard; 3. Mared Morris. 12-16. Tirlun lleol: 1. Miriam Pritchard; 2. Manon Pritchard; 3. Miriam Pritchard.

EGLWYS SANT PERIS. Mae'r gwaith adnewyddu wedi cychwyn yn yr eglwys ac yn y cyfamser bydd y gwasanaethau'n parhau yn Nhŷ'r Eglwys (Church house) fel arfer. Gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn y Nadolig.



LLONGYFARCHIADAU mawr i Margaret a Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, ar achlysur eu Priodas Ruddem ar y 15fed o Hydref. Joiwch y dathlu.

Galw Pob JONES yng Nghymru!

Dyma'ch cyfle i fod yn rhan o hanes

Mae S4C yn trefnu digwyddiad go arbennig yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd, ar nos Wener, 3 Tachwedd, ac yn gwahodd pob Jones yng Nghymru, a thu hwnt, i fod yn rhan o'r hwyl.

Mi fydd Caryl Parry Jones yno a Tammy Jones, Dai Jones, Gwyn Hughes Jones ac Elin Fflur Jones. A fyddwch chi?

Bydd y sioe *Jones Jones Jones* yn cyflwyno cerddoriaeth, dawn a chomedi, ynghyd â gwesteion arbennig a chystadlaethau. Yr hyn sy'n nodedig am y sioe yw y bydd gan bob un o'r artistiaid fydd yn cymryd rhan gysylltiad agos â'r enw Jones, ac y bydd mwyafrif y gynulleidfa hefyd yn Jonesiaid, gydag S4C yn gobeithio torri Record Guinness y Byd am gasglu ynghyd y nifer mwyaf o bobl sy'n rhannu'r un cyfenw.

Mae'r record ar hyn o bryd yn cael ei dal gan 583 o Norbergiaid a ddaeth at ei gilydd yn Sweden ar 20 Gorffennaf 2004. Mae lle yng Nghanolfan y Mileniwm ar gyfer 1,600 o bobl ac felly mae Neville Hughes o'r cwmni cynhyrchu Cwmni Da, un o'r tîm sy'n gyfrifol am drefnu'r noson ar y cyd â chwmni Mr Producer, yn ffyddiog y bydd y record yn cael ei thorri.

'Mae cymaint o Jonesiaid yn byw yng Nghymru rwy'n sicr y byddwn ni'n cyrraedd y nod,' meddai. 'Ac, wrth gwrs, mi fydd hi'n sioe gofiadwy iawn gan y bydd nifer o artistiaid adnabyddus a thalentog yn cymryd rhan. Mae 'na ddewis da yng Nghymru ac ar draws y byd o artistiaid gyda'r cyfenw Jones! Mi fydd Jonesiaid o'r byd chwaraeon, y byd ffilmiau, y byd teledu a'r byd cerddorol yn ymddangos.'

Gellir archebu tocynnau ar gyfer y noson trwy gysylltu â swyddfa docynnau Canolfan y Mileniwm. Gellir archebu'r

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. I gloi gweithgareddau'r haf bu'r aelodau yn mwynhau cyfarfodydd tu allan i'r pentref. Un o'r rhai hynny oedd ymweliad â stiwdio *Rownd a Rownd*. Yna bu'r aelodau ar eu trip dirgel blyneddol, sef taith ar gwch ym Mae Caernarfon a diweddu'r noson yn Galeri.

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist i Colin Wager, y Swyddfa Bost, ar 10 Medi am farwolaeth ei unig chwaer, June Short, yn Florida yn 72 mlwydd oed. Cydymdeimlwn ag ef a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos Iau, 7 Medi, pan ddaeth nifer helaeth o'r aelodau at

ei gilydd.

Mrs Lowri Roberts Williams oedd Cadeirydd y noson ac ar ddechrau'r cyfarfod arweiniodd yr aelodau mewn myfyrdod ar dymor yr hydref a noson y cyfarfod yn digwydd bod yn noson Lleud y Cynhaeaf. Arweiniodd ni ymhellach i gyflwyno gwraig wâd y noson gyda chyfeiriad at y cynaeafau yn awdl Dic Jones i'r Cynhaeaf, yn arbennig felly 'cynhaeaf llawn y can llaeth' gan mai Mrs Margaret Davies, Dwyrân, yn sôn am ei chynnyrch 'Caws Gorau Glas' oedd y gwestai. Croesawyd hi a'i phriod yn gynnes i'r cyfarfod.

Profodd yn noson i'w chofio gyda chyflwyniad bywiog a diddorol oedd yn hoelio meddwl y gwrandawyr ar y testun. Cafwyd tamaid o'r caws i'w brofi ar y terfyn a dogn wedyn i pawb i'w ddwyn gartref. Diolchwyd i Mrs Davies am noson arbennig iawn gan y Cadeirydd a'u llongyfarch fel teulu ar y fenter sydd wedi profi yn llwyddiant ysgubol.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 12 Hydref, pryd y disgwylir Mr J. Elwyn Hughes, Bethel, i roi sgwrs dan y testun, 'Bro Caradog

Rhoddion

£2: Melissa a David, 8 Caradog Place, Deiniolen

£5: Mary Thomas, Olgra Terrace, Llanberis; Iwan a Bethan Jones, Carmel; Kathleen Williams, 1 Glanrafon, Llanberis.

£10: John a Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis

£20: Er cof am Eirwyn ac Islwyn, Brynrefail gan Euronwy, Gwyneth, Falmal a Maldwyn.

tocynnau dros y ffôn ond, ar noson y sioe, mi fydd yn rhaid i bawb arddangos prawf gweledol mai Jones yw eu cyfenw - gyda phasbort neu drwydded yrru. Mae'n rhaid gwneud hyn gan y bydd tîm o Guinness World Records yn bresennol i sicrhau bod y record newydd yn gwbl ddilys. Nid yw enwau cyn priodi neu enwau â chysylltnod yn cyfrif.

Cysylltwch â swyddfa docynnau Canolfan y Mileniwm ar 08700 402000 (cost galwad genedlaethol). £15 yw pris tocyn, gyda chonsesiynau o £10 a £5.

Cofiwch sicrhau fod gennych dystiolaeth weledol o'ch cyfenw ar y noson!

Prichard trwy luniau'.

Croeso cynnes i bawb ymuno ar y noson.

Ar derfyn yr oedfa fore Sul, 10 Medi, cafwyd cyfarfod byr o'r nifer dda o'r aelodau oedd yn bresennol i drafod ymhellach apwyntio Gweithiwr Ieuenctid Cristnogol i ddalgylch bro'r Eco, yn ôl cais y Pwyllgor Llywio lleol. Roedd hyn yn dilyn yr hysbysiad roddwyd o'r bwriad rai misoedd yn ôl a'r cyfle gafodd yr aelodau i fynegi barn mewn holiadur. Nawr, roedd yn ofynnol ymateb yn ffurfiol yn dilyn manylion oedd yn amlinellu oblygiadau'r cynllun.

Wedi trafodaeth yn dilyn cyflwyniad o'r manylion gan Gwyn Hefin Jones, pasiwyd i gefnogi y bwriad o ran egwyddor, gyda golwg ar drafodaeth fanylach yn y dyfodol.

OEDFAON HYDREF.

Yr oll o'r gwasanaethau i gychwyn am 5.30 o'r gloch.

1: Parchg. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

8: Parchg. Gwenda Richards, Caernarfon. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

15: Mr Edward Morus Jones, Llandegfan.

22: Oedfa'r Wyl Ddiolchgarwch dan arweiniad y Parchg. Eric Jones, Bangor

29: Mr John H. Hughes, Llanberis.

GWOBR I GRUG

Ddechrau mis Gorffennaf roedd crefftwaig ifanc o Lanberis yn arddangos ei gwaith mewn arddangosfa yn Llundain.

Mae Grug Jones, Cadnant, Llanberis (Fferm Fêl yr Wyddfa), yn fyfyrwraig yng Ngholeg Celf a Dylunio, Henffordd ers dwy flynedd bellach. Cwblhaodd y cwrs Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau Cymhwysol Cyfoes (*Contemporary Applied Arts*) ym mis Gorffennaf. Bydd yn dechrau ei blwyddyn olaf yn y Coleg ym mis Hydref gan ddilyn cwrs B.A. yn y Celfyddydau Cymhwysol Cyfoes.

Y llynedd, yn ystod ei hail flwyddyn yn y Coleg, cynhyrchodd Grug ddarnau metel wedi eu haddurno. Cafodd rhai ohonynt eu

harddangos mewn sioe 'Pewter Line' yn Islington yn Llundain yn ystod yr haf. Dyfarnwyd yr ail wobwr i Grug yn ei chategori, y Gystadleuaeth Cynllunio Pwter, a chyflwynwyd ei gwobr iddi gan y cynllunydd byd enwog, Jasper Conran.

Roedd ei gwaith hefyd yn rhan o arddangosfa yn y Coleg yn Henffordd, lle'r enillodd Grug y wobwr gyntaf yng Ngwobr Cynllunio Crefftau Westons (*Westons Design Craft Award*) eleni.

Dymunwn y dda i Grug ar gyfer ei blwyddyn olaf yn y Coleg, ac i'r dyfodol wrth iddi gael cyfleon newydd i feithrin y ddawn greadigol oedd mor amlwg ynddi ers yn ifanc iawn. Edrychwn ymlaen at weld ei gwaith, ac at glywed am llwyddiant pellach iddi yn fuan.


Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMBOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein telthiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333



CROESAIR HYDREF



Ar draws

1. Dysgu i siarad yn gywir.
5. Gwefus i wefus.
6. Diwedd bywyd.
7. Dau dim gyda'r un sgôr.
10. Mae angen trwydded i ddal y pysgodyn yma.
13. Mae hwn yn dod o India.
15. Cewch hwn wrth ddefnyddio camera un diwrnod o'r wythnos.
16. Rhywbeth i gerdded arno.
17. Siap pêl.
18. Mae hwn wrth yr halen ar y bwrdd.
19. Maddeuant.
21. Mae hwn yn dod o'r simdde.
24. Lliw poblogaidd i yrrwyr faniau.
25. Ffordd i mewn neu allan.
27. Pobl sy'n byw mewn ardal.
28. Cwch bach Cymreig.
33. Nid yw'n oer.
34. Distaw.
35. Llumanwr Bryncoch.
36. Bachgen.
37. Cewch bigiad gan y pryf yma.
40. Maint.
43. Mae angen hwn i ddal pysgodyn.
44. Anifail gyda 9 bywyd.

47. Coeden all fod yn arian.
48. Mynd yn ol.
52. Tynnwr llun.
54. Tyfiant ar ddiwedd bys.
55. Esgid coedyn.
56. O'r un ardal.
57. Taliad i'r llywodraeth.
58. Byddwch yn cyfnewid un wrth briodi.
59. Anifail gyda mwng.

I lawr

2. Beth mae'r barbwr yn ei siapio.
3. Gallwch ailgylchu hwn.
4. Mae'n bosib gweld drwy hwn.
8. Mamal adeiniog.
9. Enillwr.
11. Porthladd yng ngogledd Cymru.
12. Asgwrn o'r goes.
14. Nid yw'n boeth.
20. Gwybodaeth am ddigwyddiadau'r dydd.
22. Prif swyddfa.
23. Ynys yng ngogledd Cymru.
24. Gelyn yn yr ardd.
26. Heb briod.
27. Gallwch adeiladu castell gyda hwn.
29. Parhau am byth.
30. Bron iawn.

31. Coch, gwyn neu rosé.
32. Cyswllt mewn dilledyn.
38. Gyda'n gilydd.
39. Nid oes angen rhain mewn byngalo.
41. Mynd heibio.
42. Cymryd bwyd.
44. Nid yw'n boeth nag yn oer.
45. Te, pwdin, cawl neu bwrdd.
46. Defnyddio clustiau
47. Dinas gyda phrifysgol yng ngogledd Cymru.
49. Mae glaw yn disgyn o hwn.
50. Rhywbeth i fwyta oddi arno.
51. Mae angen aros wrth y golau yma.
53. Nid yw'n agos

Mae'n rhaid i mi ymddiheuro'n llwyr am y camddealltwriaeth yn y ddau rifyn diwethaf. Wrth safio'r croesair o un feddalwedd i un arall, rhywsut ne'i gilydd fe roddais yr enw anghywir i'r ddogfen yn y cyfrifiadur ac yna cafodd pawb y croesair anghywir! Wedyn gan nad oedd rhifyn Awst, fe gollais syniad ar amser ac roeddwn yn rhy hwyr i gael y croesair i rifyn Medi.

Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn mwynhau y croesair yma, a gobeithio y bydd yn eich cyrraedd yn gywir!

Atebion at Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, LL55 4YY erbyn Hydref 14. Cofiwch ysgrifennu 'Croesair' ar tu allan i'r amlen, pob lwc!

HERIO'R DINASYDDION

Pwy o fro'r *Eco* sy'n dylanwadu ar y dewisiadau ar gyfer y gemau yng Nghwpan Pel-droed Cymru? Y llynedd tîm Llanberis oedd yn mentro draw i Ffordd Farrar, ac yn rhoi perfformiad i'w edmygu. Eleni, bydd rhaid i'r 'Bangor Lads' deithio draw i Eithin Duon, Llanrug, ar gyfer yr ail rownd y Sadwrn yma. Dyma gyfle i'r tîm lleol ymfalchïo yn eu cyfleusterau ar ac oddi ar y maes. Yn sicr maent yn cymharu â nifer yn y Gynghrair Genedlaethol.

Mae'n gyfle hefyd i gyfrannu i'r coffrau drwy'r dorf a'r arian o gyrraedd pob rownd yn y gystadleuaeth. Hefyd wrth gwrs, bydd Jiws yn dychwelyd i'w gynefin a bydd awch ar ei chwarae, mae'n siŵr. Ac i bwy fydd Jonathan Newell yn chwarae? Mae wedi gwneud cryn argraff ar Ffordd Farrar.

Gobeithio y caiff y fro ddiwrnod - a noson - i'w chofio, ac y bydd chwaraewyr Llanrug yn gwneud y gwaith o lenwi'r golofn y mis nesaf yn waith hawdd a phleserus i mi. Dymuniadau gorau iddynt.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253



**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

CHWARAEON

TALIADAU – BOD YN AGORED

Ymddengys fod y rhaglen *Panorama* wdi creu cryn broblem i'r awdurdodau pêl-droed. Caed tystiolaeth ar dâp fod rhai o gynrychiolwyr (*agents*) y chwaraewyr yn torri rheolau wrth ddelio gyda rhai rheolwyr yn ystod ambell drosgrwyddiad. Bydd cryn edrych ymlaen at benderfyniad yr awdurdodau, gan fod awgrym fod rhai ohonynt yn rheolwyr eithaf amlwg. Hefyd, bydd nifer o gefnogwyr yn teimlo'n anniddig fod rhai tu mewn i'r gêm yn cael cildwrn moethus, a'r cefnogwyr yn talu crocbris am wyllo gemau ac wrth brynu nwyddau'r clwb.

Os bydd y dystiolaeth yn cael ei gwireddu gobeithio mai trwy golli pwyntiau ac nid yn ariannol y bydd y gosb. Y mae colli pwyntiau yn cael mwy o ddylanwad na cholli arian. Ac oni ddaeth hi'n amser i roddi uchafswm cyflog erbyn hyn?

Y mae'r cwestiwn o daliadau wedi bod dan yr wyneb hyd yn oed ar y lefel leol. Yn adeg yr 'amatur', yn ôl yn y 60'au roedd sawl un yn amau a oedd rhai o'r timau 'amatur' yn dilyn llythyren y ddeddf. 'Mae yn talu,' fyddai'r gri, neu 'Mae.....yn cael hyn a hyn yn.....'

Rŵan, dyma gyfaddefiad personol. Yn ystod diwedd y 60'au a dechrau'r 70'au, bûm i yn chwarae i ddau dîm llwyddiannus, sef Llechid a

Llanberis. Yn Llechid, dim byd pan yn chwarae i ffwrdd, ond pan yn chwarae adref caem ddau beint a phe'i boeth! Pryd go-iawn cyn mentro i lawr i dre am y nos Sadwrn.

Yna Llanberis, a 'llyfr bach' yr diweddar annwyl Arfon Phillips. Yma y cofnodai bob taliad, a hynny i'r ddimai. Mae'n gwestiwn a fu unrhyw un mor deyrngar i glwb nag Arfon.

Ar y pryd roeddwn newydd briodi ac yn byw yng Nghaernarfon. I'r gemau adref, pas gan y wraig a hithau yn mynd i dŷ ei mam.

'Sut ddoist ti heddiw?'

'Efo Mêr.'

Deg swllt. Pres te! Yn y llyfr.

Yna'r Sadwrn hwnnw, a Mêr yn mynd i Landudno:

'Sut ddoist ti heddiw?'

'Efo bws.'

Punt.

Rhaid cyfaddef, mi es i ar y bws yn aml wedyn. Wir!

CLWB PÊL-DROED BETHEL

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd i lwyddiant y noson a gynhaliwyd yn Cofi Roc yn ddiweddar. Cafwyd noson dda a llwyddwyd i godi swm barchus tuag at goffrau'r clwb. Diolch yn arbennig i gwmni teithiau Seren Arian am eu gwobr hael o benwythnos yng Nghaerdydd ar gyfer un o gemau pêl-droed Cymru.

GWAWR NEWYDD I RYGBI'R GOGLEDD

Yn swyddogol, yng ngolwg y W.R.U. y mae'r gogledd a'r canolbarth yn rhan o 'dalaith' rygbi Sgarlets Llanelli. Bu'n hysbys ers cryn amser mai gwantan iawn fu'r cysylltiad a'r dylanwad. Teg dweud fod cryn ddefnydd wedi ei wneud o 'deyrngarwch' nifer ohonnom i'r Sgarlets oherwydd y cysylltiad ieithyddol.

Rhaid oedd i'r Gogs fodloni ar ambell ymweliad gan 'fois y tracwsg', a gemau yn erbyn un o dimau gwanafr yr Alban ar y Cae Ras. Os oedd ambell chwaraewr addawol ifanc yn ymddangos, roedd gofyn teithio yn rheolaidd i chwarae ac ymarfer. Yn anffodus, anfonodd y pwysau yma ambell chwaraewr addawol i ymuno â thimau dros y ffin.

Gyda thîm y Strade mewn dyfroedd ariannol dirfawr, mae'n sicr mai gwanhau fuasai ei gyfraniad a'i ddylanwad ar glybiau'r gogledd.

Amserol iawn felly yw'r cynllun uchelgeisiol a lansiwyd gan Gerald Davies yn ddiweddar. Y bwriad yw anelu i greu pumed 'talaith' yn y gogledd/canolbarth. Dyma'r ymdrech gyntaf gan y W.R.U. i gydnabod pwysigrwydd yr ardal fel rhan allweddol o ddatblygu'r gêm yn y 'wlad fach' hon. Fel y dywedodd Gerald, mewn gwlad fach rhaid troi pob carreg i ddarganfod a datblygu talent.

Strwythr fydd y gair allweddol o hyn ymlaen, gyda'r pwyslais ar ddatblygiad. Bydd timau'r gogledd/canolbarth yn cael eu dosrannu'n dair cynghrair, gydag esgyn a disgyn ar ddiwedd y tymor. Yn bwysicach, yn cyd-redeg â'r gemau bydd cynghreiriau i dimau ieuencid yr ardal. Dyna darged unigol i bob chwaraewr ieuanc. Y targed

nawr fydd gobeithio creu cystadleuaeth am le yn y tîm cyntaf, trwy ymroddiad yn ogystal â photensial. Mewn sawl camp mae nifer a 'allai' fod wedi bod yn chwaraewyr da. Os!

Ond! Yr 'amatur' i mi yw'r un sy'n ddisgybledig yn ei agwedd tuag at ei gamp ac yn herio ei ddawn yn erbyn rhai o safon uwch. Yn y modd yma mae yn 'broffesiynol' ei agwedd ac yn magu profiad. Y mae'r agwedd feddyliol yr un mor bwysig â'r agwedd gorfforol yn natblygiad unrhyw chwaraewr.

Yr hyn ddylai apelio yn y strwythr newydd yw ei bwyslais ar wella'r clwb a'r unigolyn.

Rhaid i drefniadaeth pob clwb yn weinyddol, o ran hyfforddiant ac ymroddiad, fod o'r safon uchaf os am anelu at y ris uchaf. Un o hoff ddywediadau aelod o'm clwb i yw, 'Trefnus oddi ar y cae, trefnus ar y cae. Didrefn oddi ar y cae, didrefn ar y cae.'

O ran y chwaraewyr efallai y bydd yn anodd i rai newid eu hagwedd ynglŷn ag elfennau 'cymdeithasol' o'r gêm. Mae sawl hanesyn am rai o'n 'prif' chwaraewyr na ollyngodd 'yr hen ffordd o fyw', hyd yn oed yn ystod y cyfnod cyfoes proffesiynol hwn. Ond ar y cyfan mae gwellhad sylweddol yn lefel ffitrwydd y chwaraewyr.

Y cwestiwn mawr yw a allwn ni ddarganfod criw o arweinwyr brwdfrydig i ddwyn y maen i'r wal. Mae'n wobwr gwerth ymgiprys amdani. Yr her yw colli'r agwedd 'blwyfol' a rhoi stamp unigryw ar y gêm yn ein hardal. Ymhenn deng mlynedd gobeithir gweld tîm rhanbarthol lled-broffesiynol yn cymryd ei le yn strwythr rygbi Cymru, a balchder y chwaraewyr wrth gael cynrychioli eu rhanbarth. Edrychwn ymlaen yn eiddgar. Cynigwyd cyfle, atebir yr alwad.

CAEL BLAS AR NODDI

Bu'r golofn dros y blynyddoedd yn diolch i'r llu o gwmnïau ac unigolion sydd wedi bod yn barod i noddi nifer o'n timau chwaraeon o bob oed. Mewn ardal nad yw'n byrlymu o ddiwydiant, rhaid canmol eu parodrwydd. Cwmni'r bwyty Indiaidd ar Stryd Fawr Llanberis – Spice of Llanberis – sydd wedi camu i'r adwy i noddi crysau tîm y pentref eleni. Y mae'r clwb yn hynod ddiolchgar i Abdul Jalil a'i deulu am eu cefnogaeth barod. Gobeithio daw y crysau â llwyddiant i'r clwb a'u codi i fyny'r tabl.

Marvin Pritchard, Llifon Owen, Jason Bayliss, Euron Davies (capt), Terry Saynor, Arfon Owen, Emyr Williams, Gethin Wakeham, Bryn Philips, Gwyn Jones. Colin Saynor (Rheolwr), Alwyn Thomas, Kevin Owen, Andrew Jones, Ian Williams.

